Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Yr Hyn sy'n Gweithio wrth Drechu Tlodi Gwledig:

## Adolygiad o Dystiolaeth o Ymyriadau i Wella Mynediad i Wasanaethau


**John Powell, Dan Keech a Matt Reed**

Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned

Prifysgol Swydd Gaerloyw


Mawrth 2018

# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn gwella prosesau llunio a chyflawni polisïau drwy gomisiynu gwaith dadansoddi a chyngor arbenigol a hyrwyddo'r defnydd ohonynt. [1] Mae'r Sefydliad yn annibynnol ar y llywodraeth ond mae'n gweithio'n agos gyda llunwyr polisi er mwyn helpu i ddatblygu syniadaeth o'r newydd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â heriau strategol a materion polisi cymhleth. Mae'n gwneud y canlynol:

Gweithio'n uniongyrchol gyda Gweinidogion Cymru i nodi'r dystiolaeth sydd ei hangen arnynt;

Cyfeirio at ymchwil berthnasol ac yn comisiynu arbenigwyr polisi i ddarparu gwaith dadansoddi a chyngor ychwanegol lle mae bylchau yn y dystiolaeth;

Darparu cyswllt cryf rhwng Canolfannau 'What Works' a llunwyr polisi yng Nghymru;

Arwain rhaglen ymchwil i'r Hyn sy'n Gweithio wrth Drechu Tlodi.

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn www.wcpp.org.uk

## Arianwyr Craidd

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

ESRC Economic & Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

[1] Ym mis Hydref 2017 daeth Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn rhan o Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. . Mae'r Ganolfan yn adeiladu ar lwyddiant y Sefydliad, a bydd yn parhau â'i waith o ddiwallu anghenion tystiolaeth Gweinidogion Llywodraeth Cymru, ynghyd â chenhadaeth newydd i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a chymhwyso tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth ateb heriau economaidd a chymdeithasol allweddol. Cafodd yr aseiniad hwn ei gomisiynu ar gyfer rhaglen waith olaf y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru.

# Cynnwys


Crynodeb 4

Cyflwyniad 6

Disgrifiad o'r Ymyriadau 6

Effeithiolrwydd Ymyriadau 16

Goblygiadau Polisi 19

Casgliad 23

Cyfeiriadau 25

Atodiad 1 – Rhagor o Wybodaeth am Ymyriadau Mynediad 29

# Crynodeb

- Ar y cyfan, llywodraeth ganolog, yn hytrach na'r sector gwirfoddol neu'r sector cymunedol, sy'n gyfrifol am ymyriadau i wella mynediad i wasanaethau, ac maent yn perthyn i dri chategori cyffredinol:
  - 'siopau un stop' neu ganolfannau sy'n canoli nifer o wasanaethau;
  - dulliau gweithredu 'seiliedig ar le' lle caiff pyrth neu ganolfannau gwasanaeth eu lleoli mewn ardaloedd a dargedir sydd â'r angen mwyaf (h.y. yn agosach i'r rhai sydd angen cymorth);
  - mynd â gwasanaethau i'r rhai sydd mewn angen (e.e. drwy ymweld â chartrefi).
- Nid yw canoli gwasanaethau drwy siopau un stop a 'chanolfannau' adnoddau yn beth newydd.  Mae sawl enghraifft, er efallai na fydd un ffordd o weithio mewn un ardal yn gallu gweithio'n uniongyrchol mewn cyd-destun arall.  Mae gweithio gyda rhanddeiliaid lleol, creu partneriaethau, ac asesu anghenion lleol yn elfennau hanfodol wrth ddylunio ymyriadau effeithiol.
- Gall dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar le ei gwneud yn bosibl i dargedu gwasanaethau'n fwy penodol a chymryd camau bach sy'n canolbwyntio ar grwpiau penodol neu rannau penodol o gymdeithas. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gall gweithredu o fewn y gymuned fod yn ffordd effeithiol o gyrraedd grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Mae cyflenwi gwasanaethau iechyd a lles mewn ardaloedd gwledig yn dibynnu i raddau helaeth ar brif fformat y systemau cyflenwi cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau hyn, sy'n pennu pa mor hyblyg y gall opsiynau cyflenwi gwledig fod.
- Gall rhaglenni i wella rhai mathau o argaeledd gwasanaeth (fel gofal plant) gael eu targedu mewn ardaloedd penodol neu mewn rhannau o gymdeithas (e.e. cartrefi incwm isel). Gall cynyddu argaeledd gofal plant fforddiadwy fod o fudd mewn sawl ffordd, gan gynnwys creu swyddi, creu cyfalaf a rhwydweithiau cymdeithasol, rhyddhau pobl i weithio, a gwella ansawdd gofal plant.
- Gall darparu gwasanaethau yn y cartref fod yn ffordd effeithiol o leihau allgáu cymdeithasol a chynyddu mynediad pobl i wasanaethau.  Gellir lleihau costau darparu gwasanaethau yn y cartref drwy ddefnyddio trigolion lleol yn rhan-amser a/neu'n wirfoddol.  Mae effeithiolrwydd darparu gwasanaethau yn y cartref yn dibynnu ar hyfforddiant o ansawdd uchel a chydberthnasau da â

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi ystod eang o raglenni i fynd i'r afael â thlodi gwledig ac eto mae amcangyfrifon diweddar yn awgrymu bod bron i chwarter o'r boblogaeth wledig yng Nghymru yn byw mewn tlodi. Mae'r hyn sy'n achosi tlodi gwledig yn gymhleth ac yn niferus, ond gwyddys bod mynediad i wasanaethau yn ffactor pwysig sy'n cyfrannu ato.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar fynediad i wasanaethau iechyd a lles, a gofal plant fforddiadwy, gan ystyried y posibilrwydd o wella darpariaeth gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru. Ni thrafodir mynediad i wasanaethau ariannol yn yr adroddiad (heblaw am un enghraifft yn Awstralia). Cyfeirir at fynediad i wasanaethau a chyngor ariannol (yn enwedig i fusnesau bach) yn bennaf yn yr adroddiad ar 'Ymyriadau economi wledig'. Mae datblygiad bancio ar-lein a mynediad ar-lein i wasanaethau ariannol eraill wedi lleihau arwyddocâd y broblem hon i ryw raddau.

Mae'r adroddiad hwn yn ymchwilio i ymyriadau mewn nifer o wledydd datblygedig er mwyn gwella mynediad i amrywiaeth o wasanaethau mewn ardaloedd gwledig. Mae'r dystiolaeth a ddarperir yn seiliedig ar adolygiad o lenyddiaeth a chwiliadau ar-lein rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Chwefror 2017.  Mae'r adroddiad yn disgrifio nifer fach o ymyriadau lle cafwyd tystiolaeth o effaith, yn crynhoi'r hyn sydd wedi gweithio mewn mannau eraill, ac yn trafod goblygiadau polisi eu rhoi ar waith yng Nghymru. Mae'r dystiolaeth o'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar fynediad i wasanaethau ond bydd hefyd yn bwydo i mewn i adroddiad cyffredinol sy'n archwilio goblygiadau'r dystiolaeth, mewn nifer o feysydd â blaenoriaeth, o ran datblygu gwledig a thlodi gwledig.

# Disgrifiad o'r Ymyriadau

Ar y cyfan, drwy ymyriadau gan y llywodraeth, yn hytrach na'r sector gwirfoddol neu'r sector cymunedol, y rheolir mynediad i wasanaethau yn bennaf.  Nodwyd tri dull o weithredu:

Darparu gwasanaethau gan y llywodraeth drwy 'ganolfan' neu 'siop un stop' lle mae ond angen i'r cwsmer fynd i un lleoliad er mwyn cael mynediad i ystod eang o wasanaethau, a gyflenwir gan gyflogeion y llywodraeth.

Dull gweithredu 'seiliedig ar le' lle caiff pyrth neu ganolfannau gwasanaeth eu lleoli mewn ardaloedd sydd â'r angen mwyaf (h.y. yn agosach i'r rhai sydd angen cymorth), a lle caiff gwasanaethau eu cyflenwi gan y wladwriaeth/llywodraeth ganolog neu drwy bartneriaethau

rhwng sefydliadau cymunedol lleol (lle mae'r awdurdod lleol hefyd yn chwarae rhan weithiau) a gefnogir gan y llywodraeth yn ariannol.

Defnyddio personél hyfforddedig (weithiau gweithwyr rhan-amser lleol a delir, neu wirfoddolwyr) i fynd â gwasanaethau i'r rheini mewn angen (e.e. drwy ymweld â chartrefi), fel arfer darparu cymorth i'r henoed a gofal iechyd yn y cartref.

Datblygwyd canolfannau adnoddau mewn ymdrech i greu systemau lles mwy effeithiol sy'n cyfuno amrywiaeth o wasanaethau, a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr gwasanaeth gael mynediad i'r hyn (a gyflwynir fel) ystod ddi-dor o wasanaethau cysylltiedig. Mae'r dull gweithredu seiliedig ar le wedi datblygu i'w gwneud yn haws i gefnogi'r grwpiau hynny sy'n fwy anodd eu cyrraedd drwy ddarparu mynediad i wasanaethau yn llawer agosach i'r ardal lle nodir angen. Mae'r trydydd dull gweithredu yn dibynnu'n fwy ar nodi'r rheini ag anghenion penodol mewn cymunedau a mynd â'r gwasanaeth i'r cartref/unigolyn sydd angen cymorth. Mae pedwerydd dull gweithredu, gan ddefnyddio'r we, yn datblygu mewn rhai ardaloedd (yn enwedig gwasanaethau iechyd mewn ardaloedd anghysbell) ac mae'n newid natur mynediad, gan olygu nad oes angen i bob gwasanaeth fod ar gael yn ffisegol mewn canolfan er mwyn i gwsmer gael cymorth. Gellir ystyried hyn yn fwy yn estyniad i'r dull gweithredu cyntaf neu ail.

Mae'r rhan fwyaf o ymyriadau a nodwyd (a grynhoir yn Nhabl 1) naill ai'n ymwneud â mynediad i waith a system budd-daliadau lles gwladwriaeth, neu fynediad i ofal iechyd. Mewn rhai gwledydd, ceir rhaglenni mwy penodol i ymdrin â materion penodol; er enghraifft, mynediad i wasanaethau ariannol mewn rhannau anghysbell o Awstralia (y Canolfannau Trafodion Gwledig), a mynediad i ofal plant mewn ardaloedd gwledig yn UDA. Ychydig iawn a welwyd o ran gwella mynediad i wasanaethau hyfforddiant, datblygu sgiliau ac addysg, heblaw am yn UDA, lle mae rhaglenni hirsefydledig (fel 'Head Start') wedi bod yn targedu cartrefi incwm isel ac yn seiliedig ar ddamcaniaethau ynghylch gwella cyfleoedd gydol oes yn deillio o gefnogi plant o oedran cynnar. Ni nodwyd unrhyw ymyriadau â nodau penodol gwella mynediad i weithgareddau hamdden a/neu gymdeithasol mewn ardaloedd gwledig (ar wahân i'r rhai yn ymwneud â gwella iechyd meddyliol/corfforol). Er nad yw'r adroddiad hwn yn mynd i'r afael â rhaglenni ymyrryd blynyddoedd cynnar ar raddfa fawr a gyflwynwyd yn UDA (fel Head Start), ac yn fwy diweddar yn y DU (e.e. Cychwyn Cadarn), mae'n werth rhoi trosolwg byr yma. Mae'r rhain yn rhaglenni cenedlaethol mawr sy'n targedu teuluoedd â phlant bach mewn ardaloedd difreintiedig, lle ceir digon o adnoddau i sefydlu, gweithredu, a gwerthuso amrywiaeth o raglenni cymorth sy'n canolbwyntio ar y plentyn a'r rhiant. Er bod Head Start wedi'i weithredu yn UDA ers amser hir, ac y cynhaliwyd nifer fawr o werthusiadau (Isaacs, 2008; Gibbs, et al., 2016), mae tystiolaeth o'r effaith yn dal i fod yn aneglur. Yn y DU, llywodraeth ganolog a gyflwynodd rhaglen Cychwyn Cadarn yn 1998, er na wnaeth ymwneud â hi am amser hir, ac yn fuan iawn y trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i awdurdodau lleol, a allai fod yn hyblyg o ran y ffocws a'r camau a gymerwyd, a lle mai prin oedd y rhwymedigaethau i barhau i'w chynnig. Pan ddechreuodd, roedd Cychwyn Cadarn yn

rhaglen seiliedig ar ardal (gydag amrywiadau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon), a oedd yn anelu at wella gofal plant, addysg gynnar, iechyd a chymorth i'r teulu, er mwyn trechu tlodi plant ac allgáu cymdeithasol. Erbyn 2003, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb amdani i lywodraeth leol er mwyn gweithredu 'canolfannau cychwyn cadarn', a ddilynwyd gan doriadau ariannol ac, mewn rhai mannau, fel Swydd Rydychen, gau pob canolfan Cychwyn Cadarn erbyn 2017 (Newyddion y BBC, 2016; papur newydd y Guardian, 2017). Mae'r gwerthusiadau a gynhaliwyd yn genedlaethol ac ar lefel fwy lleol (NESS, 2008, 2010, Hutchins, et al., 2007) yn awgrymu canlyniadau cymysg, yn rhannol oherwydd natur amrywiol y broses o gyflwyno'r rhaglen ledled y wlad, ac mae'r canlyniadau yn dal i fod yn ddadleuol. Bu newidiadau yn y dull gweithredu yng Nghymru hefyd (e.e. cyflwynwyd Cymorth drwy Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol ym mhob awdurdod lleol). Ar hyn o bryd mae Dechrau'n Deg (Llywodraeth Cymru, 2012) yn targedu teuluoedd â phlant o dan 4 oed sy'n byw mewn rhannau difreintiedig o Gymru. Defnyddiodd cyfanswm o 37,260 o blant wasanaethau Dechrau'n Deg yng Nghymru (2014-14) a disgwylir i hynny gynyddu. Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant rhan-amser am ddim i blant 2-3 oed, gwasanaeth ymwelydd iechyd, rhaglenni rhianta, a chymorth i ddatblygu lleferydd, iaith a chyfathrebu.

## Tabl 1. Trosolwg cryno o ymyriadau sy'n dylanwadu ar fynediad i wasanaethau

**Pwnc: Mynediad i Wasanaethau**

| Ymyriad | Lleoliad | Nodweddion | Disgrifiad o'r ymyriad | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|
| Siopau un stop: Gwasanaethau Bro | Seland Newydd | Darparu gwasanaethau i boblogaethau anghysbell a bach. Gweithrediad: 2001 - hyd heddiw | Cydleoli ystod eang o wasanaethau a gwybodaeth y llywodraeth mewn un man. Yn cysylltu 36 o adrannau'r llywodraeth a 50 o sefydliadau cymunedol. Yn defnyddio cydlynwyr ar y safle. | Mae gwerthusiad o'r broses (a gynhaliwyd yn 2004) yn awgrymu arbedion cost sylweddol (ond mae'r data meintiol yn gyfyngedig). Yn nodi cryfderau a gwendidau, a rhai o'r gofynion sylfaenol i wneud iddo weithio. |
| Gwasanaeth siop un stop peilot | Gogledd Iwerddon | Cymorth i bobl ifanc o ran materion personol a ffordd o fyw. Gweithrediad: 2009-2011 | Treialwyd datblygiad gwasanaethau "Siop Un Stop" penodol ar gyfer pobl ifanc, gan gynnig gwybodaeth galw heibio a gwasanaethau cyngor mewn perthynas â chamddefnyddio alcohol a chyffuriau, hunanladdiad a hunan-niwed, iechyd meddwl a lles, iechyd rhywiol, cydberthnasau, ymdopi â'r ysgol/gwaith. | Mesurwyd effeithiolrwydd drwy gyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol.<br>O safbwynt strategol, ystyriwyd bod y model yn llwyddiannus am fod pob agwedd ar bob DPA wedi'i gyflawni. Mae lefel uchel iawn o foddhad ymhlith defnyddwyr (cymorth staff (94%), help gyda materion neu broblemau (88%), cyfrinachedd y gwasanaeth (86%) a lleoliad y gwasanaeth (85%)) yn gyflawniad mawr a chadarnhaol. |
| Y Weinyddiaeth Cyflogaeth a Lles Newydd<br><br>(Talfyriad Norwyeg: NAV) | Norwy | Er mwyn cydlynu gwasanaethau cyflogaeth ac yswiriant gwladol a gwasanaethau cymdeithasol, sefydlodd diwygiad NAV siop un stop – gwasanaeth rheng flaen ar y cyd – ym mhob bwrdeistref.<br><br>Gweithrediad: 2006 - 10 | Y Weinyddiaeth Cyflogaeth a Lles Newydd (talfyriad Norwyeg: NAV) gyda siop un stop o'r enw NAVoffice. Trefnwyd y siop un stop fel partneriaeth rhwng y gweinyddiaethau cyflogaeth ac yswiriant a gyfunwyd (cyfrifoldeb llywodraeth ganolog) a'r weinyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol (cyfrifoldeb llywodraeth leol).<br>Yn orfodol i fwrdeistrefi gymryd rhan; roedd yn rhaid cynnig cymorth cymdeithasol ariannol gan y bwrdeistrefi (budd-daliadau cymdeithasol) drwy'r siopau un stop. Yn ogystal, 'gellid' hefyd gynnig amrywiaeth o wasanaethau cymdeithasol bwrdeistrefol eraill mewn partneriaeth leol benodol. | Unodd diwygiad NAV y gweinyddiaethau ar gyfer yswiriant gwladol a chyflogaeth, ond parhaodd y weinyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol i fod yn gyfrifoldeb llywodraeth leol.<br>Mewn 90% o achosion, dewisodd bwrdeistrefi gynnwys tasgau bwrdeistrefol anorfodol yn eu portffolios tasgau. Er enghraifft, penderfynodd y rhan fwyaf o fwrdeistrefi gynnwys triniaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau a thai cymdeithasol yn y siopau un stop. Mewn 90% o achosion, dewisodd y partneriaethau reolaeth unedol, gan olygu bod un person yn gyfrifol am ochr fwrdeistrefol a gwladwriaethol y bartneriaeth. |

**Pwnc: Mynediad i Wasanaethau**

| Ymyriad | Lleoliad | Nodweddion | Disgrifiad o'r ymyriad | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|
| Canolfannau gwaith bwrdeistrefol | Denmarc | System siop un stop unigol gydag 'un fynedfa' i'r ardal gyflogaeth.<br><br>Gweithrediad 2009 hyd heddiw | Yn 2009, penderfynodd y llywodraeth y dylai bwrdeistrefi ddod yn gyfrifol am bobl ddi-waith ag yswiriant a thalu budd-daliadau diweithdra. Byddai pob gwasanaeth cyflogaeth yn cael ei gynnig mewn siopau un stop – canolfannau gwaith – a fyddai'n cael cefnogaeth cyfrifoldeb gweithredol bwrdeistrefol ond yn destun rheoleiddio canolog. | Mae'r strwythur presennol yn gymharol syml, gyda'r canolfannau gwaith bellach yn cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan y bwrdeistrefi â lefel uchel o ymreolaeth. Mae bwrdeistrefi yn unedau datganoledig cymharol gryf. |
| Ystafell Gymunedol Midgley | Lloegr, y Penwynion, Swydd Efrog | Darparu gwasanaethau lleol gan fforwm cymunedol. Gweithredwyd: 2001-10 | Yn cynnwys siop ac ystafell gymunedol. Mae gan boblogaeth o 1,040 fynediad i wasanaethau. Mae 40 o wirfoddolwyr yn rhedeg y siop a'r ystafell gymunedol. | Mae'r siop ar agor 48 awr dros 6 diwrnod/ 80 cwsmer y dydd ar gyfartaledd. Creu cymuned gryfach; llai o ynyswch, atgyfnerthu rhwydweithiau cymdeithasol |
| Canolfannau Trafodion Gwledig | Awstralia | Mynediad i amrywiaeth o wybodaeth a gwasanaethau gan y llywodraeth, gwasanaethau a chynhyrchion y sector preifat, a gofod swyddfa at ddefnydd y gymuned | Bwriedir i Ganolfannau Trafodion Gwledig helpu cymunedau bach i sefydlu canolfannau i wella mynediad i wasanaethau sylfaenol na fyddent ar gael fel arall. Mae pob canolfan yn ymateb i anghenion cymunedau penodol. | Mae data gwerthuso cyfyngedig o 2003 yn awgrymu bod amrywiaeth o broblemau wrth gyflwyno'r rhaglen. Proses weithredu araf, sefydlu nifer gyfyngedig o ganolfannau; diffyg gwasanaethau ariannol ar gael. |
| Gwe Gymunedol Leol, y Ffindir. | Y Ffindir | Darparu gwasanaethau ar-lein (cynadledda, gohebu drwy e-bost a chyfathrebu ar-lein) | Roedd y prosiect Gwe Gymunedol Leol yn brosiect peilot oedd yn anelu at ddarparu gwasanaeth i'r ardal leol a fyddai'n annog sefydlu rhwydwaith cymunedol yn seiliedig ar gynadledda cyfrifiadurol, gohebu drwy e-bost a chyfathrebu ar-lein. Roedd gan y prosiect amcanion penodol i atal allgáu | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | cymdeithasol, cefnogi arloesedd cymdeithasol a gwella gwasanaethau ac amodau byw yn yr ardal beilot. | |

**Pwnc: Mynediad i Wasanaethau**

| Ymyriad | Lleoliad | Nodweddion | Disgrifiad o'r ymyriad | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Asiant Pentref | Lloegr | Helpu pobl mewn cymunedau gwledig i gael mynediad i wasanaethau, a helpu i lywio'r broses o'u cyflenwi<br><br>Gweithrediad: 2008 hyd heddiw (er bod y cynllun wedi gorffen mewn rhai ardaloedd) | Mae Asiantiaid Pentref yn gweithio gyda phob oedran gan ddelio ag ystod eang o faterion, er eu bod yn dueddol o ganolbwyntio ar yr henoed a phroblemau gofal cymdeithasol. Mae Asiantiaid Pentref hefyd yn gwneud y canlynol:<br>- helpu i lywio gwasanaethau drwy fwydo gwybodaeth am fylchau mewn gwasanaethau<br>- cymell a chynorthwyo cymuned i ymateb i anghenion lleol<br>Y potensial i integreiddio â gwaith ehangach - lleihau ynysu ac allgáu, cefnogi gwasanaethau. | Datgelodd gwerthusiad o Gynllun Swydd Gaerloyw yn 2008 fod 30 o asiantiaid yn cwmpasu 162 o blwyfi gan weithio mewn clystyrau o gymunedau sydd â mynediad cyfyngedig i wasanaethau yn lleol, os o gwbl. Yn cynnig dull cost isel o helpu pobl i gael mynediad i wasanaethau gan ddefnyddio pobl leol ran-amser a hyfforddedig sy'n byw yn yr ardal ac y mae'r gymuned leol yn ymddiried ynddynt. Helpodd Asiantiaid Pentref yn Swydd Gaerloyw bobl leol i gynyddu eu hawliad budd-daliadau £6,000 yr wythnos, a chael mynediad i fwy o wasanaethau |
| Rhwydwaith Gofal Plant Gwledig | De-orllewin Lloegr | Grŵp o sefydliadau gofal plant cymunedol sy'n cydweithio.<br><br>Gweithrediad: 2007-13 (cyllid Cynllun Datblygu Gwledig) | Fe'i sefydlwyd i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth i grwpiau chwarae a oedd yn aelodau. Ymhlith y gwasanaethau mae: -<br>• cymorth mentora ym maes cynllunio busnes<br>• gwefan i rannu gwybodaeth a gwasanaethau: gwneud cais am grantiau, cyflogres, a phryniadau grŵp er mwyn lleihau gorbenion.<br>• y defnydd o ddau weithiwr gofal plant wrth gefn a rennir pan fo staff yn sâl | Daeth cyllid cychwynnol oddi wrth South West Action for Rural Development. Mae gwasanaethau a rennir yn lleihau costau i ddarparwyr gofal plant unigol. Ni nodwyd gwerthusiad ffurfiol. |
| Rhaglen Gofal Plant. Cronfa Benthyciadau | Vermont, UDA | Benthyciwr amgen cymunedol. Yn cynnig benthyciadau i ddarparwyr gofal | Yn cyfuno benthyciadau â gwasanaethau ymgynghori ariannol a datblygu busnes. Mae VCLF yn fenthyciwr amgen nid er elw preifat. Ystod eang o raglenni gan gynnwys | Gofal o ansawdd wedi'i greu neu ei gynnal i 3,400 o blant a'u teuluoedd. Mae gwerthusiad o'r rhaglen gofal plant yn dangos bod VCLF yn gwasanaethu cwmnïau sy'n cefnogi teuluoedd mwy incwm isel: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymunedol Vermont (VCLF) | | plant nad ydynt yn gymwys i gael benthyciad gan fenthyciwr traddodiadol.<br><br>Gweithrediad: 2000 - hyd heddiw | gofal plant | mae 44.8% o holl gofrestriadau VCLF yn incwm isel o gymharu â llai na 30% ledled y dalaith. Mae VCLF yn galluogi mwy o fynediad i ofal babanod a phlant bach o ansawdd: mae 85.6% o'r babanod sydd ar raglenni a gaiff eu rhedeg gan fenthycwyr VCLF wedi'u cofrestru mewn gofal plant o ansawdd uchel |
| Menter Busnes Gofal Plant | Vermont, UDA | Mae'r prosiect hwn yn darparu hyfforddiant busnes a chymorth technegol i fusnesau gofal plant newydd a rhai sy'n bodoli eisoes.<br><br>Gweithrediad: | Un o brosiectau Rhaglen Datblygu Microfusnesau Asiantaethau Gweithredu Cymunedol Vermont, a weithredir ledled y dalaith. Ymhlith y gwasanaethau a gyflenwyd gan y grant roedd: Cwrs Gofal Plant Kauffmann, gwasanaethau cymorth technegol a chyngor busnes, gweithdai ar bynciau penodol, ac atgyfeiriadau at adnoddau fel gwasanaethau cymdeithasol a phecynnau benthyciadau. | Gwerthusiad 2006: Roedd myfyrwyr yn teimlo'n fwy hyderus o ran eu sgiliau ac fel perchenogion busnes. Gwnaeth cleientiaid a ddechreuodd ddilyn y rhaglen ar y cam cychwynnol ddysgu am sut i ddechrau busnes gofal plant, rheoliadau'r dalaith, ac ymarferoldeb rhedeg y math hwn o fusnes. Cyfanswm nifer y cleientiaid a dderbyniodd wasanaethau gan y Menter Busnes Gofal Plant = 329; Roedd 43% (139) o dan y lefel tlodi |

**Pwnc: Mynediad i Wasanaethau**

| Ymyriad | Lleoliad | Nodweddion | Disgrifiad o'r ymyriad | Gwerthusiad |
|---|---|---|---|---|
| Canolfannau cymdogaeth a chymunedol | De Cymru Newydd, Awstralia | Mynediad i wasanaethau; lleihau'r amharodrwydd i ddefnyddio gwasanaethau.<br><br>Gweithrediad: 1961 – hyd heddiw ond newidiwyd cyllid yn 1991 a 2010 | Mae canolfannau cymdogaeth yn darparu gwasanaethau costeffeithiol drwy'r defnydd o wirfoddolwyr (31% o gyflenwad gwasanaethau) a gweithwyr ar gyflog isel. Gall canolfannau hefyd godi arian o amrywiaeth o ffynonellau. Mae canolfannau yn darparu gwasanaethau uniongyrchol, yn gyfrwng i dderbyn gwasanaethau eraill, ac yn darparu buddiannau anuniongyrchol fel creu cyfalaf cymdeithasol. | Mae canolfannau cymdogaeth wedi bodoli yn Ne Cymru Newydd ers o leiaf 1961, gan dyfu mewn ymateb i ymwybyddiaeth y gymuned o hunangymorth, materion yn ymwneud â thrigolion a hawliau lles. Yn 1991, daeth y cyllid craidd yn rhan o Raglen Grantiau Gwasanaethau Cymunedol Gwasanaethau Cymunedol De Cymru Newydd - mwy na 300 o ganolfannau wedi'u sefydlu. |
| Partneriaethau Cape York: Rheoli Incwm Teuluoedd | Awstralia | Un o blith nifer o fentrau cysylltiedig a gynhelir er mwyn diwallu anghenion a phroblemau critigol pobl Frodorol Cape York.<br><br>Gweithrediad: 2008 - 2013 | Mae'r rhan fwyaf o gymunedau brodorol Cape York yn ynysig iawn ac ni allant gael mynediad i gyfleusterau bancio prif ffrwd. Sefydlwyd y fenter hon i oresgyn y rhwystrau hyn a helpu pobl Frodorol i reoli eu hincwm yn well er mwyn cyflawni eu nodau.<br>Amcanion y fenter:<br>o Meithrin gallu teuluoedd ac unigolion i reoli incwm;<br>o Cynnwys grwpiau teuluol mewn prosesau rheoli incwm, helpu cyfranogwyr i nodi a chyflawni cyfrifoldebau i'w gilydd ac i'w cymunedau. | Mae'r fenter ar waith mewn wyth cymuned ac mae mwy na 700 o bobl yn cymryd rhan y mae eu safonau byw wedi gwella.<br>Ym mis Mawrth 2013 nododd gwerthusiad gan Lywodraeth Awstralia o'r cynllun diwygio peilot ganlyniadau cymysg yn gysylltiedig â rheoli incwm. Peth tystiolaeth o reoli incwm yn well: nododd 78% o'r bobl a arolygwyd lle rheolwyd eu hincwm fod y cynllun wedi gwneud eu bywydau yn well.<br>Nododd y gwerthusiad y bu gwelliannau mewn meysydd fel mynychu'r ysgol a lleihau trosedd. Anodd dod i gasgliadau gan fod gwelliannau hefyd wedi eu gweld ymhlith llawer o gymunedau Brodorol eraill yn Queensland. |
| Tlodi: Adnodd Clinigol i Ddarparwyr Gofal Sylfaenol | Ontario, Canada | Adnodd tlodi ar gyfer darparwyr gofal sylfaenol (fe'i rhoddwyd ar waith hefyd mewn taleithiau eraill ledled | Yn cyfarwyddo darparwyr i ofyn cwestiynau allweddol er mwyn asesu sefyllfa fyw a budd-daliadau presennol cleifion; yn cynnwys cysylltiadau ag adnoddau llywodraeth a chymunedol allweddol er mwyn cefnogi ymyriadau cadarnhaol. | Dechreuodd yn Ontario yn 2015 – nawr wedi'i fabwysiadu gan y rhan fwyaf o daleithiau eraill ledled Canada.<br>Nododd gwerthusiad yn 2016 o adnodd sgrinio budd-daliadau ar-lein fod 61 o fudd-daliadau wedi'u hargymell i gleifion a oedd yn gymwys i'w cael, ond |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Canada).<br><br>Gweithrediad: 2015 - hyd heddiw | Er mwyn gwella canlyniadau cleifion, caiff tasgau sydd ynghlwm wrth sgrinio cleifion ar gyfer tlodi a budd-daliadau, gan eu cysylltu â help i wneud cais am fudd-daliadau ac addasu asesiadau iechyd, eu rhannu rhwng timau iechyd amlddisgyblaethol. | nad oeddent yn eu derbyn. Roedd a wnelo dros 47% o'r budd-daliadau a argymhellwyd â chymorth anabledd.<br>Mae ffisegwyr o'r farn bod ganddynt rôl i'w chwarae eu hunain yn sgrinio ar gyfer tlodi er mwyn gwella iechyd cleifion.<br>Mae'r broses o sgrinio ar gyfer budd-daliadau yn gofyn am broses ddilynol sy'n atgyfeirio cleifion at y camau nesaf. |

# Effeithiolrwydd Ymyriadau

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu lefel gymysg o lwyddiant o ran cyflenwi gwasanaethau. Mae mentrau yn Awstralia (Canolfannau Trafodion Gwledig a Phartneriaeth Cape York) yn nodi amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig anghysbell, gan gynnwys diffyg cynllunio digonol a'r gofynion ar wirfoddolwyr lleol mewn cymunedau bach i gyflawni rhannau sylweddol o gynllun (Canolfannau Trafodion Gwledig), a diffyg tystiolaeth gwrthffeithiol a natur hirdymor budd-daliadau sy'n ei gwneud hi'n anodd gwerthuso rhaglenni o'r fath (Partneriaeth Cape York).

Ymddengys fod siopau un stop wedi bod yn gymharol lwyddiannus, er bod mentrau yn amrywio gryn dipyn o ran y ffordd y maent yn gweithredu. Mae cynllun yn Seland Newydd (Gwasanaethau Heartland) yn dal i weithredu ar ôl 16 mlynedd ac ymddengys ei fod yn gymharol lwyddiannus wrth gyflenwi ystod eang o wasanaethau llywodraeth a chymunedol mewn mwy na 30 o leoliadau. Mae cynlluniau a mentrau sy'n dibynnu ar gyllid gan y llywodraeth yn debygol o ddioddef oherwydd cyllidebau cyfyngedig ac nid yw Heartland yn eithriad. Mae adroddiadau gwerthuso yn awgrymu adnoddau seilwaith gwael o gyllidebau isel sy'n cyfyngu ar y gwasanaethau a gynigir, ac yn gwneud trafodaethau cyfrinachol yn anodd. Mae siopau un stop hefyd wedi cael eu cyflwyno yn Norwy, Denmarc a'r DU o ran cysylltu budd-daliadau cymdeithasol â chyflenwi gwasanaethau cyflogaeth. Mae rhaglenni wedi lleihau costau cyflenwi ac wedi helpu i integreiddio gwasanaethau, ac yn Norwy a Denmarc mae lefel y cyfrifoldeb sydd gan awdurdodau lleol (lle mae llywodraeth fwrdeistrefol yn gymharol gryfach) wedi galluogi peth hyblygrwydd a theilwra i amodau lleol. Fodd bynnag, gall integreiddio gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth ddod â'u problemau unigryw eu hunain, er enghraifft o ran dynameg pŵer rhyngasiantaethol a thueddiad i un partner ddominyddu. Mae gwerthusiadau o raglenni siop un stop wedi nodi pwysigrwydd creu strwythurau sefydliadol effeithiol i lwyddiant siopau un stop a chyflenwi gwasanaethau mewn ffordd integredig.

Datblygiad mwy diweddar fu'r dull integredig o weithredu a ddatblygwyd yng Nghanada (Tlodi: Adnodd Clinigol i Ddarparwyr Gofal Sylfaenol) lle mae darparwyr gofal iechyd bellach yn cynnal 'asesiadau' penodol o dlodi, er mwyn archwilio prif achosion problemau iechyd. Mae darparwyr yn defnyddio set o gwestiynau er mwyn asesu sefyllfaoedd byw a budd-daliadau presennol. Lle nodir problemau, caiff cleifion eu hatgyfeirio at adnoddau llywodraeth a chymunedol (a all weithredu o'r un adeilad) sy'n cynnig cymorth ychwanegol (e.e. cymorth i hawlio budd-daliadau anabledd). Gall y wybodaeth hefyd gael ei rhannu rhwng sawl aelod o'r tîm sy'n ymwneud â gofal iechyd, a sefydliadau lles cymdeithasol. Mae'r cynllun hwn wedi ehangu'n gyflym o un dalaith i Ganada gyfan mewn llai na dwy flynedd. Mae'r cynllun yn fath o siop un stop ond gan ddefnyddio darparwyr gofal iechyd sylfaenol (e.e. meddygon teulu) fel mynediad i system gymorth integredig.

Drwy weithredu ar sail lle mae mwy o gyfle i dargedu darpariaeth yn fwy penodol er mwyn diwallu anghenion lleol a bodloni amodau lleol.  Nid yw gweithredu ar sail lle bob amser yn llwyddo, er enghraifft, ni chafodd y Canolfannau Trafodion Gwledig a sefydlwyd yn Awstralia eu gweithredu'n dda a phrin oedd y gwasanaethau a gyflenwyd, er gwaethaf cyllid gan y llywodraeth ac angen a nodwyd am gymorth busnesau bach mewn ardaloedd gwledig anghysbell.  Mae'r gwaith gwerthuso yn awgrymu bod sawl rheswm dros fethu (Senedd Awstralia, 2004; Swyddfa Archwilio Genedlaethol Awstralia, 2003) gan gynnwys natur eang y broblem (cau gwasanaethau bancio mewn rhai ardaloedd gwledig anghysbell), cyllid annigonol, gweithredu gwael, yn seiliedig ar ddamcaniaeth rhaglen wan, a diffyg ystyriaeth i gyfleoedd technolegau newydd (h.y. bancio ar y we a gwasanaethau cysylltiedig).

Ar y llaw arall, mae gweithredu ar sail lle, lle targedwyd ardaloedd neu gymunedau penodol oedd angen cymorth, wedi bod yn fwy llwyddiannus, er enghraifft, y canolfannau cymdogaeth a thai yn Ne Cymru Newydd.  Ymhlith canlyniadau allweddol canolfannau cymdogaeth mae: mynediad uniongyrchol i amrywiaeth o wasanaethau i bobl leol (e.e. rhaglenni rhianta a chymorth teuluol, gofal plant, datblygu ieuenctid, addysg oedolion a sgiliau bywyd, grwpiau cymorth ar gyfer cam-drin domestig a phroblemau caethiwed), darparu cysylltiadau â gwasanaethau eraill; gwelliannau i gyfalaf cymdeithasol, ac yn fwyaf pwysig, pwynt mynediad 'meddal' nad yw'n creu stigma i'r system wasanaeth.  Ymhlith y ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant y canolfannau mae lefel cyfranogiad y gymuned, lleoliad canolfannau mewn cymunedau targed (sy'n lleihau 'stigma' ac yn cynyddu'r defnydd o wasanaethau gan rannau 'anodd eu cyrraedd' o gymdeithas), a'r ddibyniaeth ar wirfoddolwyr i gyflenwi (Perry a Savage, 2012; Canolfan Astudiaethau Economaidd De Awstralia, 2013). Ymddengys fod prosiect Partneriaethau Cape York hefyd wedi bod yn llwyddiannus (er mai prin yw'r wybodaeth werthuso), drwy ei ddull gweithredu seiliedig ar le gan ddefnyddio gweithwyr cymorth lleol i weithio gyda chartrefi ar reoli incwm teuluoedd.

Mae'r cam rhesymegol nesaf o ran mynd â gwasanaethau i gartrefi sydd angen cymorth yn opsiwn drutach ond mae wedi gweithio'n dda ar gyfer mathau penodol o gymorth, fel helpu hen bobl i gael mynediad i wasanaethau ac yn ogystal leihau allgáu cymdeithasol.  Un enghraifft yw cynllun Asiantiaid Pentref sy'n defnyddio pobl leol yn y gymuned fel Asiantiaid rhan-amser.  Mantais defnyddio pobl leol yw eu bod yn adnabod yr ardal, a llawer o'r bobl, sydd wedyn yn ennyn mwy o ymddiriedaeth, yn enwedig ymhlith pobl hŷn. Mae'r gwaith gwerthuso yn awgrymu bod y buddsoddiad wedi talu ar ei ganfed, gan greu incwm i economïau lleol drwy helpu trigolion i hawlio budd-daliadau lles a phensiynau, a lleihau allgáu cymdeithasol.  Drwy helpu i gadw pobl hŷn yn eu cartrefi maent hefyd wedi lleihau costau iechyd a gofal.

Llwyddiant cymedrol a brofwyd gan raglenni neu gynlluniau sy'n targedu bylchau penodol yn y gwasanaethau a gyflenwir (fel mynediad i ofal plant).  Mae gan Vermont amrywiaeth o wahanol ddulliau o wella mynediad i ofal plant fforddiadwy o ansawdd lle defnyddir arian grant gan y llywodraeth daleithiol a benthyciadau nid er elw.  Mae Rhaglen Gofal Plant

Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont yn ddull diddorol o wella mynediad i ofal plant drwy gynorthwyo cartrefi incwm isel i ddatblygu eu busnesau gofal plant eu hunain.  Nododd asesiad effaith (Whitely 2013)

> "…VCLF's loans have contributed to an overall increase of quality child care available to low- and mixed-income families in communities around the state, have increased wages and added jobs". (Whitely, 2013: 4)

Drwy ddarparu benthyciadau (yn enwedig i gartrefi incwm isel) i sefydlu a gweithredu busnesau gofal plant caiff swyddi eu creu a lleddfir problemau ynghylch mynediad i ofal plant.  Mae cyllid taleithiol a ddarperir drwy Fenter Busnes Gofal Plant Vermont (Prifysgol Vermont, 2006) yn chwarae'r un rôl yn y bôn â defnyddio grantiau er mwyn helpu i ddatblygu a gwella busnesau gofal plant.  Mae'r ddau ddull wedi cynyddu lefel ac ansawdd gofal plant sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig.

Yn y DU mae hefyd dystiolaeth sy'n dangos manteision creu sefydliadau cefnogol seiliedig ar aelodau neu bartneriaeth er mwyn helpu i ddarparu gofal plant.  Mae'r Rhwydwaith Gofal Plant Gwledig yn ne-orllewin Lloegr (Rhwydwaith Gofal Plant Gwledig, 2017) yn dangos arbedion posibl canoli gwasanaethau cymorth a gweinyddol sylfaenol drwy sefydliad seiliedig ar aelodau.  Caiff aelodau gymorth cynllunio busnes, cymorth gweinyddol fel y gyflogres, gwybodaeth, gweithwyr wrth gefn, a gwasanaeth cynnal a chadw a rennir, gan ei gwneud yn rhatach rhedeg busnes gofal plant ac yn haws sefydlu busnes newydd.

Nododd gwerthusiad o raglen beilot Canolfannau Gofal Plant a Dysgu Cynnar Cymunedol (Dorrans, et al., 2015) a redwyd gan 4Children (a ariannwyd gan yr Adran Addysg), rai o fanteision a chyfyngiadau gweithio mewn partneriaeth i gyflenwi gofal plant.  Nod y rhaglen beilot oedd:

> "bring together high-quality day care providers, schools, children's centres and childminders into Community Hubs…to develop a financially sustainable model for more flexible and responsive childcare and early education in a local area". (Dorrans et al., 2015: 4)

Er na chawsant eu datblygu'n benodol ar gyfer ardaloedd gwledig, nod y canolfannau oedd cynyddu mynediad i ofal plant 'cyfunol', gwella darpariaeth gofal plant i blant dwy oed (gan dargedu bwlch canfyddedig mewn darpariaeth) a gwella ansawdd y ddarpariaeth.  Nododd y gwerthusiad ei bod yn anodd cysylltu partneriaid gwahanol, er bod y canolfannau yn cynyddu'r rhyngweithio rhwng darparwyr, gan arwain, mewn rhai achosion, at gydberthnasau agosach rhwng ymarferwyr, a rhannu syniadau, profiadau, ac arfer gorau rhwng aelodau canolfannau.  Argymhellodd y gwerthusiad y dylid datblygu'r canolfannau ar sail rhwydweithiau neu bartneriaethau lleol presennol (sy'n annog camau cynnar ac aelodau

newydd), a diwallu anghenion a bodloni dymuniadau darparwyr lleol yn seiliedig ar asesiad o anghenion.

# Goblygiadau Polisi

Mae gan Gymru, a'r DU yn fwy cyffredinol, wasanaethau iechyd a lles cwbl weithredol. Rhaid i unrhyw gynigion neu newidiadau gydweddu â'r systemau presennol, a dangos y potensial i gyflawni arbedion cost mewn cyfnod o doriadau i gyllid cyhoeddus gwasanaethau iechyd a lles. Dim ond llywodraethau cenedlaethol sy'n gwneud newidiadau mawr i systemau lles (e.e. Norwy, Denmarc) lle ceisir cyflenwi gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon ledled ardaloedd trefol a gwledig (Lægreid a Rykkja, 2013). Fodd bynnag, maent yn ddefnyddiol i ddangos rhai o fuddiannau a chyfyngiadau cyflenwi gwasanaethau integredig.

Yn amlwg gall siopau un stop sy'n cysylltu gwasanaethau cymorth iechyd a lles arbed costau drwy eu cydleoli mewn lleoliadau canolog. Yn amlwg hefyd mae nodi cleientiaid nad ydynt yn hawlio'r holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael, a darparu cymorth i alluogi hynny i ddigwydd yn yr un lleoliad, yn arwain at arbedion effeithlonrwydd i'r rhai sy'n cyflenwi gwasanaethau, a'r rhai sy'n ceisio cael mynediad iddynt. Mae'r buddiannau yn debygol o gynnwys gwell gofal iechyd, a mwy o gymorth i ymdrin â phrif achosion problemau iechyd (e.e. tlodi tanwydd, allgáu cymdeithasol, deiet gwael), yn ogystal â buddiannau economaidd lleol anuniongyrchol lle caiff mwy ei wario gan y rhai sy'n cael mwy o fudd-daliadau (mewn ffordd debyg i Asiantiaid Pentref sy'n helpu trigolion i hawlio mwy o fudd-daliadau). Mae'r fath ganoli o ran cyflenwi gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig hefyd yn cynnig arbedion i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd ond angen teithio i un lleoliad, ac os mai canolfan wasanaeth bresennol yw honno mae'n debygol y bydd modd ei chyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae potensial i integreiddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus â lleoliad cyflenwi gwasanaethau canolog, ond mae angen gweithredu polisïau a rhaglenni integredig.

Mae siopau un stop wedi cael eu cyflwyno mewn sawl gwlad wahanol mewn cyd-destunau gwahanol, gan amrywio o ran llwyddiant (Rennie, et al., 2002; INSEAD, 2013; Social Market Research, 2011). Ymhlith y cyfyngiadau posibl mae:

- y seilwaith sydd ar gael, p'un a oes adeiladau addas ar gael i leoli canolfannau gwasanaeth canolog
- diwylliannau'r asiantaethau a leolir gyda'i gilydd, a'r capasiti sefydliadol i wahanol adrannau, asiantaethau a sefydliadau'r llywodraeth gydweithio
- yr angen am breifatrwydd a chyfrinachedd wrth weithio gyda chleientiaid
- defnydd blaenorol o'r adeilad (cysylltiadau negyddol lleol a phroblemau o ran stigma)

Mae gwerthusiadau o ymyriadau mewn mannau eraill wedi nodi'r anawsterau a wynebir pan gaiff asiantaethau eu lleoli gyda'i gilydd er mwyn cyflenwi gwasanaethau mewn lleoliadau anghysbell ond eu bod yn gweithredu ar sail cyflawni gwahanol dargedau, a lle wynebir lefelau amrywiol o gyfyngiadau o ran adnoddau. Mae'r dull newydd o weithredu yng Nghanada lle defnyddir darparwyr iechyd i archwilio materion yn ymwneud â thlodi fel rhan o adolygiad meddygol (Prosper Canada, 2016; Centre for Effective Practice, 2015), cyn cyfeirio cleientiaid ymlaen i gydweithwyr a gydleolir (o bosibl), yn cynnig y cyfle i gyrraedd rhannau o gymdeithas a fu'n anodd eu cyrraedd yn flaenorol a mynd i'r afael â rhai o brif achosion tlodi. Mae angen ystyried gweithredu fel hyn gyda rhanddeiliaid, a thrwy gynnal astudiaethau peilot er mwyn pennu ei effeithiolrwydd posibl yng nghyd-destun Cymru.

Mae dadansoddiad o ymyriadau siopau un stop yn awgrymu bod angen set gyffredinol o nodau polisi a rhaglen sy'n berthnasol i bob asiantaeth dan sylw; a bod y gwaith o gyflawni hyn wedi'i ymgorffori yn nodau'r adran, a'r meini prawf datblygu a hyrwyddo. Gall rhoi pobl mewn swyddfa gyda'i gilydd arwain at rai arbedion cost ond nid yw'n gyfystyr â chyflenwi gwasanaethau mewn modd integredig. Mae angen cryn dipyn o newid sefydliadol ar lefel polisi ac wrth reoli staff rheng flaen er mwyn i'r fath ddulliau gweithredu arwain at well gwasanaethau a llwyddiant. Lle ceir partneriaethau effeithiol yn barod a bod parodrwydd i weithredu mewn ffyrdd newydd, gall newidiadau a gwelliannau wrth gyflenwi gwasanaethau gael eu cyflawni'n gymharol gyflym (fel y dangoswyd drwy gyflwyno'r adnodd clinigol ar gyfer Tlodi yng Nghanada).

Drwy weithredu ar sail lle mae mwy o gyfle i ddiwallu anghenion yn fwy lleol ar lefel gymunedol, a'i gwneud yn bosibl cyflenwi gwasanaethau drwy gamau gweithredu llai o faint wedi'u targedu. Mae gwerthusiadau o raglenni presennol yn awgrymu bod angen cynnwys y gymuned a gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflenwi gwasanaethau'n effeithiol i'r gynulleidfa darged fwriadedig. Mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell, gall canolfannau cymunedol bach fod yn fodd i gynyddu mynediad lleol i gyfuniadau amrywiol o wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Mae gwerthusiad o gyflenwi gwasanaethau yn y cartref, drwy gynlluniau fel Asiantiaid Pentref, yn awgrymu bod sawl mantais bosibl i'w chael. Er mwyn bod yn gosteffeithiol, mae'r dull gweithredu hwn yn dibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr a/neu drigolion lleol a delir yn gymharol isel, sydd angen peth hyfforddiant. Bydd sefydlu cynllun fel un 'asiant pentref' yn

gofyn am gyflwyno adnoddau cymorth a chynlluniau hyfforddi er mwyn galluogi 'asiantiaid' lleol i gyfeirio cleientiaid at sefydliadau cymorth ac asiantaethau llywodraethol perthnasol.

Yn achos dulliau gweithredu mwy penodol fel darparu gofal plant (Prifysgol Vermont, 2006; Dorrans et al., 2015) mae lle i fod yn fwy hyblyg a theilwra'r broses o gyflwyno rhaglen i wahanol gyd-destunau. Mae gofal plant fforddiadwy yn wasanaeth y nodwyd ei fod yn brin yng Nghymru. Mae sawl mantais i dargedu cymorth i deuluoedd incwm isel er mwyn helpu i wella lefel ac ansawdd gofal plant (Prifysgol Vermont, 2006), gan gynnwys creu swyddi, llai o deithio, llai o ynyswch ac allgáu cymdeithasol, a galluogi pobl i weithio. Byddai hyn o bosibl yn cyfrannu at ddau o'r tri phrif amcan yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2011, sef lleihau nifer y teuluoedd mewn aelwydydd heb waith, a gwella sgiliau rhieni a phobl ifanc mewn teuluoedd incwm isel fel eu bod yn gallu cael gwaith sy'n talu'n dda (Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, 2012). Byddai'n rhaid i unrhyw ymyriad fod wedi'i integreiddio â gweithgareddau rhaglen Dechrau'n Deg sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd, a'u hategu (Llywodraeth Cymru, 2012). Mae'r mentrau sydd ar waith yn Vermont a de-orllewin Lloegr yn awgrymu amrywiaeth o opsiynau a allai fod o fudd petaent yn cael eu cyflwyno mewn rhannau gwledig o Gymru, ond maent yn gofyn am rywfaint o weithredu cychwynnol gan y llywodraeth er mwyn creu amodau ffafriol i feithrin y gallu i ddatblygu busnesau, a chefnogi seilwaith sylfaenol (e.e. gwneud addasiadau i dai, cyfarpar).

Mae buddiannau ymaelodi â'r Rhwydwaith Gofal Plant Gwledig yn ne-orllewin Lloegr, a sefydlwyd o dan Raglen Datblygu Gwledig 2007-13 (Rhwydwaith Gofal Plant Gwledig, 2017), yn awgrymu y gallai arian grant/benthyciad bach i sefydlu sefydliadau seiliedig ar aelodau fod yn werthfawr wrth gynyddu darpariaeth gofal plant a chodi safonau ansawdd. Er mwyn gwella gofal plant mewn ardaloedd gwledig rhaid cael cymorth er mwyn cael hyfforddiant, meithrin sgiliau rheoli busnes, gwneud gwelliannau i'r cartref (y potensial i gysylltu â gwneud gwelliannau i effeithlonrwydd ynni), a rhaglen fonitro i sicrhau ansawdd. Gall annog datblygu darpariaeth gofal plant mewn canolfannau gwasanaeth/cyflogaeth penodol â chysylltiadau trafnidiaeth sefydledig hefyd wella mynediad i wasanaethau.

Un mater nad ymdrinnir ag ef yn yr adroddiad hwn yw'r defnydd o gyllidebau neu daliadau uniongyrchol iechyd personol i reoli cyflyrau hirdymor (gan alluogi grwpiau penodol o gleifion a staff y GIG i brynu gwasanaethau neu gyfarpar), a all gynnig ffyrdd newydd ymlaen i gyflenwi gwasanaethau iechyd penodol mewn ardaloedd gwledig. Dyma'r cam nesaf wrth gyflenwi gwasanaethau, gan fynd y tu hwnt i'r trydydd dull gweithredu, sef cyflenwi gwasanaethau yn y cartref, i gynnwys y cleient yn uniongyrchol wrth benderfynu ar yr hyn sydd ei angen a phryd mae angen y gwasanaethau hynny. Mae'r dull hwn o weithredu yn debygol o drawsnewid y gydberthynas rhwng darparwyr gofal a chleifion, gofyn am gynllunio mwy manwl, a gall gymryd amser i'w gyflwyno ledled y DU (Coulter, et al., 2013). Mae'n anodd dweud p'un a welir defnydd mwy effeithlon ac effeithiol o adnoddau yn deillio o'r canlyniad hwn ar hyn o bryd, gan fod y canlyniadau yn dibynnu ar y cyllid a fydd ar gael, a sut y gall gael ei flaenoriaethu. Fodd bynnag, mae hefyd bryder mai ffordd 'drws cefn' o

breifateiddio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yw hyn drwy weithredu ar sail yswiriant (Samuel, 2015).

# Casgliad

Gall unrhyw un o'r tri dull eang o gyflenwi gwasanaethau (canolfannau canolog, seiliedig ar le ac yn y cartref) gael eu trefnu a'u gweithredu drwy lywodraeth daleithiol neu ganolog, neu drwy weithio mewn partneriaeth sy'n cynnwys sefydliadau cymunedol lleol (lle mae'r awdurdod lleol hefyd yn chwarae rhan weithiau). Mae cyflenwi gwasanaethau iechyd a lles mewn ardaloedd gwledig yn dibynnu, i raddau helaeth, ar fformat y system gyflenwi genedlaethol ar gyfer y gwasanaethau hyn, sy'n pennu pa mor hyblyg y gall opsiynau cyflenwi gwledig fod.

Fel y nodwyd yn gynharach, nid yw canoli gwasanaethau drwy siopau un stop a 'chanolfannau' adnoddau yn beth newydd. Mae sawl enghraifft, er efallai na fydd un ffordd o weithio mewn un ardal yn gallu gweithio mewn cyd-destun arall. Mae gweithio gyda rhanddeiliaid lleol, creu partneriaethau, ac asesu anghenion lleol yn elfennau hanfodol wrth ddatblygu ymyriadau effeithiol. Mae creu strwythurau sefydliadol addas i gefnogi gwaith partneriaeth yn agwedd hanfodol, ond a anwybyddir yn aml, ar ganolfannau gwasanaeth canolog lle caiff sefydliadau gwahanol eu cydleoli er mwyn cyflenwi amrywiaeth o wasanaethau. Mae angen cysylltiadau clir ar strwythurau sefydliadol, o nodau polisi i gyflenwi ar y rheng flaen, a all gysoni nodau polisi â chamau gweithredu personol staff ar bob lefel.

Gall dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar le ei gwneud yn bosibl i dargedu gwasanaethau'n fwy penodol a chymryd camau bach sy'n targedu grwpiau penodol neu rannau penodol o gymdeithas. Mae ymyriadau'n awgrymu y gall gweithredu o fewn y gymuned fod yn ffordd effeithiol o gyrraedd rhannau o gymdeithas sy'n anodd eu cyrraedd. Mae tystiolaeth o ymyriadau yn awgrymu, mewn llawer o achosion, fod archwilio materion yn ymwneud â thlodi, mewn ffordd un i un fwy personol, o fudd i gleientiaid yn uniongyrchol, lle nad ydynt yn cael yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael, ynghyd â buddiannau anuniongyrchol i'r economi leol o fwy o incwm a gwariant. Er y gall symiau unigol fod yn fach, gall yr effaith fod yn sylweddol dros amser i unigolion ac economïau lleol.

Gall rhaglenni i wella rhai mathau o argaeledd gwasanaeth (fel gofal plant) gael eu targedu mewn ardaloedd penodol neu mewn rhannau o gymdeithas (e.e. cartrefi incwm isel). Gall cynyddu argaeledd gofal plant fforddiadwy fod o fudd mewn sawl ffordd, gan gynnwys creu swyddi, creu cyfalaf a rhwydweithiau cymdeithasol, sicrhau bod pobl ar gael i weithio, a gofal plant o ansawdd uwch. Mae angen cymorth y llywodraeth i wneud hyn, o ran sefydlu rhaglenni hyfforddi, darparu cyllid i sefydlu busnesau (ar ffurf benthyciadau o bosibl), a sefydlu systemau monitro sicrhau ansawdd.

Gall darparu gwasanaethau yn y cartref hefyd fod yn ffordd effeithiol o leihau allgáu cymdeithasol a chynyddu mynediad pobl i wasanaethau.  Gellir lleihau costau darparu gwasanaethau yn y cartref drwy ddefnyddio trigolion lleol yn rhan-amser a/neu'n wirfoddol.  I fod yn effeithiol, mae angen hyfforddiant a chysylltiadau cryf ag asiantaethau perthnasol y llywodraeth.

# Cyfeiriadau

BMJ 2007;334:678; 334 doi: https://doi.org/10.1136/bmj.39126.620799.55 (Cyhoeddwyd 29 Mawrth 2007)

Canolfan Astudiaethau Economaidd De Awstralia (2013) **Economic and Social Impact Study: Community and Neighbourhood Centres Sector. Final Report**. Canolfan Astudiaethau Economaidd De Awstralia, Prifysgolion Adelaide a Flinders.

CCRI (2017) **Agents for Change: An evaluation of the Somerset Village Agents Programme**. Adroddiad heb ei Gyhoeddi

Centre for Effective Practice (2015) **Poverty: A Clinical Tool for Primary Care Providers**. **https://thewellhealth.ca/wp-content/uploads/2016/07/Poverty_flow-Tool-May1.pdf**

Coulter, A., Roberts, S. ac A. Dixon (2013) **Delivering better services for people with long-term conditions: Building the house of care.** Cronfa'r Brenin, Llundain. **https://www.kingsfund.org.uk/sites/files/kf/field/field_publication_file/delivering-better-services-for-people-with-long-term-conditions.pdf**

Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont . Cyrchwyd 10 Chwefror 2017. **http://www.investinvermont.org/borrowers/child-care**

Dorrans, s., Gentry, M., a G. Cameron (2015) **Evaluation of the Community Childcare and Early Learning Hubs. Final Report.** OPM Ltd., Llundain.

Gibbs, C., Ludwig, J., Miller, D. ac N. Shenhav, (2016) **Short-run Fade-out in Head Start and Implications for Long-run Effectiveness.** Center for Poverty Research, Prifysgol California, Davis, Briff Polisi Cyfrol 4, Rhif 8, Chwefror, 2016.

**http://www.aph.gov.au/Parliamentary_Business/Committees/Joint/Corporations_and_Financial_Services/Completed_inquiries/2002-04/banking/report/c10**

Hutchings, J., Bywater, T., Daley, D., Gardner, F., Whitaker, C., Jones, K., Eames, C., ac Edwards, R. (2007) **Parenting intervention in Sure Start services for children at risk of developing conduct disorder: pragmatic randomised controlled trial.** BMJ 2007;334:678.

INSEAD (2013) **One-stop shops: the key to low cost service delivery in rural areas. The Case of Heartland Services.** INSEAD Innovation & Policy Initiative

Isaacs, J. (2008) **Impacts of Early Childhood Programs**. First Focus and the Brookings Institute, Washington DC.

Izmire, G., Katz, I. a J. Bruce (2009) **Neighbourhood and community centres: results for children, families and communities.** Y Ganolfan Polisi ac Ymchwil Gymdeithasol, Prifysgol De Cymru Newydd.

Lægreid, P. ac L. H. Rykkja (2013) **Coordinating Norwegian Welfare: the NAV reform.**

Llywodraeth Cymru (2012) **Dechrau'n Deg Canllawiau Strategol.** Cyrchwyd 20 Tachwedd 2017. **http://gov.wales/docs/dhss/publications/120913fsguidancecy.pdf**

Masterson, D. (2012) **Village Agents Evaluation**. Cyngor De Swydd Stafford.

NESS - Gwerthusiad Cenedlaethol o Dîm Ymchwil Dechrau'n Deg. (2010) **The impact of Sure Start Local Programmes on five year olds and their families.** Briff Ymchwil: DFE-RB067 ISBN 978-1-84775-826-2.

NESS - Gwerthusiad Cenedlaethol o Dîm Ymchwil Dechrau'n Deg. (2008) **The Impact of Sure Start Local Programmes on Three Year Olds and Their Families.** Cyhoeddiadau DfES, Rhif Cyfeirnod NESS/2008/SF/027
**http://www.ness.bbk.ac.uk/impact/documents/42.pdf**

Newyddion y BBC (2016) **High Court backs Oxfordshire children's centre closures.** Adroddwyd ar 1 Awst 2016. **http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-oxfordshire-36945353**. Cyrchwyd 20 Tachwedd 2017.

Papur Newydd y Guardian (2017) **A third of Sure Start children's centres in England lost, says Labour.** Adroddwyd ddydd Mercher 5 Ebrill 2017. Cyrchwyd 20 Tachwedd 2017. **https://www.theguardian.com/society/2017/apr/05/sure-start-childrens-centres-cuts-labour**

Paratowyd gan Uned Ymchwil a Gwerthuso'r Teulu, Plant, Ieuenctid a Chymunedau, Seland Newydd. **www.heartlandservices.govt.nz/documents/evaluation-heartland-services-initiative.doc**

Perry, D. ac A. Savage (2012) **Mixed Reception: An Evaluation of Neighbourhood Houses & Learning Centres' Experience in 30 Community Hubs**. Cymdeithas Cymdogaethau, Tai a Chanolfannau Dysgu, Awstralia.

Prifysgol Aberdeen (2011) **Evaluation of the Introduction of a Community First Responder Scheme in Rannoch and Tummel.** Y Ganolfan Ymchwil a Pholisi Iechyd Gwledig.

Prifysgol Bergen, Norwy.

Prifysgol Vermont (2006) **The Vermont Child Care Business Initiative Evaluation Report, FY I-III. Executive Summary**. Gwasanaethau Gwerthuso, Y Ganolfan Astudiaethau Gwledig, Prifysgol Vermont, Burlington, Vermont 05405. **https://www.uvm.edu/crs/reports/2006/CCBI_execsumm06.pdf**

Prosiect Asiantiaid Cymunedol, Redcar a Cleveland. **http://www.teesvalleyrcc.org.uk/partnerships/communityagents/**

Prosper Canada (2016) **Benefits Screening Tool Project: Phase 1 Report**. Cyflwyniad PPT. Toronto, Canada. **www.prospercanada.org**

Rennie, F.W., Greller, W. ac M. Mackay (2002) **Review of international best practice in service delivery to remote and rural areas.** Y Sefydliad Astudiaethau Gwledig ac Ynys a Chanolfan Ymchwil Wybodaeth yr Alban. Ymchwil Gymdeithasol Gweithrediaeth yr Alban

Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru (2012) **Tackling child Poverty in Wales: A Good Practice Guide for Schools.** 2il Rifyn. **www.plantyngnghymru.org.uk/**

Rhwydwaith Gofal Plant Gwledig (2017) De-orllewin Lloegr. Cyrchwyd 20 Ionawr 2017. **www.ruralchildcarenetwork.com**

Scott-Samuel, A. (2015) **Personal health budgets in England: mood music or death knell for the National Health Service?** International Journal of Health Services, Vo.45, No.1, tt.73–86. **http://pcwww.liv.ac.uk/~alexss/personalhealthbudgets.pdf**

Senedd Awstralia (2004) **Money Matters in the Bush: Inquiry into the Level of Banking and Financial Services in Rural, Regional and Remote Areas of Australia. Chapter 10 Rural transaction centres.** Y Cydbwyllgor Seneddol ar Gorfforaethau a Gwasanaethau Ariannol.

Social Market Research (2011**) Evaluation of a Pilot One Stop Shop Programme. Final Report**.

SQW Ltd. (2003) **Evaluation of the out of school childcare initiative**. Final report for the New Opportunities Fund. SQW Ltd., Caergrawnt.

Swyddfa Archwilio Genedlaethol Awstralia (2003) **The Administration of Telecommunications Grants**. Yr Adran Cyfathrebu, Technoleg Gwybodaeth a'r

Celfyddydau, yr Adran Trafnidiaeth a Gwasanaethau Rhanbarthol. Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol Rhif 12, 2003-04. Performance Audit.

Trillium Asset Management Corporation (2008) Investing for a Better World. Winter Newsletter 2007–08. Vol. 22, No. 4. **http://trilliuminvest.com/pdf/trillium_ifbw_winter07-08.pdf**

West End Community House (2011) **Strengthening people and places: the role and value of community and neighbourhood centres.** Published by West End Community House on behalf of Benarrawa Community Development Association, Sherwood Neighbourhood Centre, Acacia Ridge Community Support Inc, Yeronga Flood Recovery Centre, Communify and New Farm Neighbourhood Centre.

Whiteley, K. (2013) **Child Care Lending Program Assessment**. Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont. **http://www.investinvermont.org/images/stories/docs/VCLFChildCareLendingProgramAssessment.pdf**

Wilson, I., Crow, A., a Willis, M. (2008) **Linkage plus project, Village Agents Gloucestershire County Council in partnership with Gloucestershire Rural Community Council overall evaluation report.** Inlogov, Ysgol Llywodraeth a Chymdeithas Prifysgol Birmingham. **https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/186842/gloucs-evaluation-report.pdf**

Y Weinyddiaeth Datblygu Cymdeithasol (2004) **Evaluation of the Heartland Services Initiative.**

# Atodiad 1 – Rhagor o Wybodaeth am Ymyriadau Mynediad

## Siopau un stop

### Gwasanaethau Heartland, Seland Newydd

Y nod oedd darparu gwasanaethau'r llywodraeth oedd yn gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau cymunedol i ardaloedd anghysbell â phoblogaethau bach drwy siopau un stop. Cyflawnir hyn drwy gydleoli ystod eang o wasanaethau'r llywodraeth a ffynonellau gwybodaeth mewn un man. Mae'r 'siopau un stop' yn cysylltu 35 o adrannau'r llywodraeth a 50 o sefydliadau cymunedol gan ddefnyddio cydlynwyr ar y safle, a'r nod yw lleihau costau cyflenwi drwy rannu swyddfa a lleihau'r angen i leoli staff mewn ardaloedd anghysbell. Drwy gymryd y camau arfaethedig, byddai nifer gymharol fach o staff rheng flaen yn gallu cyflenwi gwasanaethau i ardal ddaearyddol eang. Mae hefyd yn galluogi mwy o gydweithredu rhwng asiantaethau. Ymhlith y gwasanaethau a gyflenwir mae'r canlynol (rhestr enghreifftiol yw hon, nid rhestr gynhwysfawr, o'r holl wasanaethau dan sylw):

- ACC - Cynllun iawndal damweiniau Seland Newydd
- Gyrfaoedd Seland Newydd - cymorth i gael swydd, hyfforddiant neu gyda llwybr gyrfa
- Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd - Cyllid ar gyfer gwasanaethau plant, pobl ifanc a theuluoedd
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Cyngor cyfreithiol; Cyfiawnder ieuenctid
- Y Weinyddiaeth Busnes, Arloesedd a Chyflogaeth - Cymorth busnes, Materion defnyddwyr; Cyfraith cyflogaeth a rheoleiddio; Gwybodaeth am iechyd a diogelwch
- Cyllid y Wlad - Cyngor ar drethi busnes; Cymorth plant; Cyngor ar dreth bersonol
- Gwasanaethau cymdeithasol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.
- StudyLink - Lwfansau Myfyrwyr, Benthyciadau Myfyrwyr, Budd-dal Diweithdra
- Sefydlu busnes - Cyllid cymunedol
- Gwaith ac Incwm - yn helpu ceiswyr gwaith ac yn talu cymhorthdal incwm
- Workbridge - gwasanaeth cyflogaeth proffesiynol i bobl ag anableddau a phobl sydd wedi cael eu hanafu

(Ffynhonnell: **http://www.heartlandservices.govt.nz/our-services/index.html#acc1**)

Ni chynrychiolir holl wasanaethau'r llywodraeth ym mhob lleoliad felly mae'r cydlynwyr safle yn chwarae rôl allweddol wrth gysylltu pobl â'r enwau cyswllt perthnasol. Agorwyd cyfanswm o 30 o ganolfannau rhwng 2001 a 2003. Awgrymodd gwerthusiad o'r broses (a gynhaliwyd yn 2004) fod y dull gweithredu hwn wedi arwain at arbedion cost sylweddol (er bod data meintiol yn gyfyngedig). Nododd y gwerthusiad gryfderau a gwendidau, gan gynnwys y canlynol:

- Drwy gydleoli safleoedd ar eiddo sefydliadau cymunedol a fodolai eisoes, cafwyd mwy o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd o'r gwasanaeth. Roedd canolfannau a gydleolwyd yn swyddfeydd y llywodraeth yn llai hysbys.
- Cafodd gwasanaethau a gydleolwyd ar safle un o asiantaethau'r llywodraeth eu cysylltu â'r asiantaeth honno neu'r defnydd blaenorol o'r adeilad gan ei gwneud yn anodd dychmygu cyflenwi gwasanaethau newydd o'r safle.
- Lle cydleolwyd gwasanaethau ar safle un o asiantaethau presennol y llywodraeth, bu llai o ddefnydd o'r gwasanaeth.
- Roedd yr enw yn drysu pobl, nad oeddent yn ei ddeall, neu nad oeddent yn siŵr o'r hyn roedd y sefydliad yn ei ddarparu.
- Roedd preifatrwydd yn broblem mewn rhai swyddfeydd. Am fod desgiau yn agos roedd yn anodd cynnal trafodaethau a galwadau ffôn cyfrinachol gyda chleientiaid.
- Er mwyn cysylltu 35 o sefydliadau'r llywodraeth a 50 o sefydliadau cymunedol gyda chyllideb gyfyngedig, bu'n rhaid cyfaddawdu o ran gweithfan a chyflenwi gwasanaethau. Ni allai pob safle gynnig pob gwasanaeth, ac ar sawl safle roedd gweithfannau'n gyfyngedig iawn.
- Mesurwyd perfformiad drwy ddata allbwn syml, a chysylltwyd y dangosyddion perfformiad hyn mewn rhai achosion â chynnydd blynyddol mewn cydnabyddiaeth – gan olygu bod mwy o le i gael ystadegau a ddangosai duedd. Prin oedd y cymhelliant i wella data o ansawdd gwael am fod data canlyniadau yn cael eu defnyddio i 'sgorio pwyntiau' ac i 'greu embaras i wleidyddion'.
- Drwy gydleoli ag un o asiantaethau presennol y llywodraeth rhoddwyd gormod o bwyslais ar fuddiannau'r asiantaeth honno (yn aml am eu bod yn cael eu monitro'n lleol gan yr asiantaeth honno) a dynwared dull a diwylliant yr asiantaeth, weithiau ar draul anghenion y gymuned leol.

Cofnododd archwiliad o berfformiad yn 2010 dros 100,000 o ymweliadau â 35 o ganolfannau gwasanaeth Heartland (am y flwyddyn flaenorol, er nad yw'r cyfnod o amser yn glir), a nododd 95% o ymatebwyr yr arolwg lefelau uchel o foddhad, gan ei gwneud yn haws iddynt ddefnyddio gwasanaethau. Nododd dadansoddiad astudiaeth achos yn 2013 (INSEAD,

2013) "…[the] initiative saved money for each of the participating agencies by removing or reducing their cost of rural office space and providing a means by which a comparably small number of front line personnel could deliver services to a geographically large area." Prif nodau'r gwasanaeth pan ddechreuodd oedd:

- gwella mynediad pobl mewn ardaloedd gwledig i wasanaethau'r llywodraeth
- gwella'r cydweithredu rhwng asiantaethau
- cefnogi asiantaethau cymunedol ac asiantaethau gwirfoddol eraill mewn ardaloedd gwledig.

Nododd adroddiad INSEAD (2013) rai gofynion hanfodol ar gyfer cyflwyno'r fenter yn llwyddiannus:

- gwneud prif asiantaeth a chanddi lefel dda o adnoddau yn gyfrifol am y fenter. Byddai hefyd ganddi rwydwaith presennol o swyddfeydd gwledig a allai gael eu haddasu i gydleoli safleoedd OSS. Gofynnid yn ffurfiol i asiantaethau eraill gymryd rhan yn y fenter.
- penodi uwch swyddog gweithredol â phrofiad a rhwydweithiau gwledig cryf, ac sydd hefyd yn gyfathrebwr effeithiol i arwain y prosiect. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth sicrhau cydweithrediad partneriaid trawsasiantaethol a chymunedau lleol.
- recriwtio personél yn systematig, yn seiliedig ar ddadansoddiad cadarn o'u rôl fwriadedig, a chynnig rhaglen sefydlu safonol ar sut i wneud y gwaith fel eu bod yn gallu gweithio'n effeithlon tuag at amcanion y fenter.
- monitro perfformiad yn ôl canlyniadau ystyrlon (nifer y cleientiaid y diwallwyd eu hanghenion yn ddigonol) yn erbyn allbynnau (e.e. nifer y cleientiaid a wasanaethwyd) fel bod y prosiect yn cyflawni gwerth gwirioneddol am arian.

Hefyd nododd yr adroddiad ffactorau oedd yn cyfyngu ar berfformiad:

- Mae cosb ynghlwm wrth gydleoli safleoedd OSS ar safleoedd y llywodraeth sy'n parhau i gyflawni rôl a all atal rhai aelodau o'r gymuned (ee. lleoli OSS mewn llys gwledig neu swyddfa lles cymdeithasol).
- Ni fydd cydleoli safle partner OSS mewn eiddo a gynlluniwyd ar gyfer un asiantaeth benodol yn addas ar gyfer pob darparwr arall. Wrth edrych ymlaen, gall fod yn fuddiol darparu categorïau gwahanol o swyddfeydd OSS er mwyn cyflenwi gwahanol glystyrau o wasanaethau.
- Mae cydleoli safleoedd partner OSS ar eiddo asiantaeth bresennol sy'n ymgysylltu â chleientiaid mewn ffordd nad yw'n gyfeillgar (e.e. swyddfa budd-daliadau diweithdra sy'n

gofyn i'w staff dreulio cyn lleied o amser â phosibl gyda chleientiaid), yn creu tensiynau a wnaiff beryglu effeithiolrwydd.

## Gwasanaeth siop un stop peilot, Gogledd Iwerddon

Ffocws y rhaglen beilot oedd darparu cymorth dynodedig i bobl ifanc yn ymwneud â materion personol a ffordd o fyw. Darparodd y canolfannau, a leolwyd yn y cymunedau lle nodwyd bod angen, wasanaethau gwybodaeth a chyngor galw heibio ar gyfer camddefnyddio alcohol a chyffuriau, hunanladdiad a hunan-niwed, iechyd meddwl a lles, iechyd rhywiol, cydberthnasau, ac ymdopi â'r ysgol/gwaith. Sefydlwyd pedwar prosiect i ddarparu ystod wahanol o gymorth:

- Gogledd Down a'r Ardiau: Forum for Action on Substance Abuse (FASA)
- Enniskillen: Fermanagh Underage Entertainment Life (FUEL)
- Banbridge: REACT Ltd.
- Dwyrain Antrim: Grŵp Cynghori Cymunedol Carrickfergus ar Gyffuriau ac Alcohol.

O safbwynt strategol, ystyriwyd bod y model yn llwyddiannus am fod pob agwedd ar yr holl ddangosyddion perfformiad a ddewiswyd wedi'i chyflawni. Hefyd mynegodd defnyddwyr gwasanaeth lefel uchel o foddhad (cymorth staff (94%), help gyda materion neu broblemau (88%), cyfrinachedd y gwasanaeth (86%) a lleoliad y gwasanaeth (85%)). O safbwynt gweithredol, mae adborth y personél allweddol a gyflwynodd y cynlluniau peilot yn awgrymu bod rhai elfennau yn fwy llwyddiannus nag eraill, er mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael am y gwahaniaethau neu'r achosion.

## Canolfannau Trafodion Gwledig, Awstralia

Sefydlwyd y Canolfannau Trafodion Gwledig yn 1999 gyda £26 miliwn o gymorth ffederal y llywodraeth am bum mlynedd. Darparwyd yr arian hwn i gynnal ymgynghoriad cychwynnol â'r gymuned a gwneud gwaith cynllunio busnes er mwyn nodi anghenion lleol. Byddai hefyd yn helpu gyda chostau cyfalaf sefydlu Canolfan Trafodion Gwledig, a byddai'n cwmpasu'r costau gweithredu yn ystod blwyddyn gyntaf y gwasanaeth. Rhoddwyd yr arian i awdurdodau lleol neu sefydliadau nid er elw er mwyn sefydlu'r Canolfannau Trafodion Gwledig. Y nod oedd sefydlu 500 o ganolfannau mewn cymunedau gwledig â llai na 3,000 o bobl, a sbardunwyd yn rhannol gan y gostyngiad mewn gwasanaethau ariannol mewn cymunedau gwledig a ddarparwyd gan fanciau masnachol yn flaenorol.

Y nod oedd gwella mynediad i amrywiaeth o wybodaeth a gwasanaethau'r llywodraeth i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig anghysbell drwy weithredu ar sail gymunedol. Mae'r

canolfannau hefyd yn rhoi mynediad i wasanaethau a chynhyrchion y sector preifat, ac yn darparu gofod swyddfa at ddefnydd y gymuned. Ymhlith y gwasanaethau a gynigir mae gwasanaethau llywodraeth ganolog (e.e. treth, cyflogaeth, budd-daliadau), gwasanaethau ariannol, gwladwriaethol a lleol (e.e. treth cerbyd, ffyrdd, llyfrgelloedd), swyddfa'r post, busnes ac ysgrifenyddiaeth, twristiaeth a gwasanaethau archebu, yswiriant, a lle i weithredu busnesau preifat bach. Y prif nod yw helpu cymunedau bach i sefydlu canolfannau a gaiff eu rhedeg yn lleol ac sy'n ariannu eu hunain, er mwyn gwella mynediad i wasanaethau sylfaenol na fyddent ar gael fel arall. Mae pob canolfan yn gweithredu'n unigol ac yn amrywio o ran y mathau o gymorth a mynediad a ddarperir, gan ddiwallu anghenion cymunedau lleol yn yr ardal a wasanaethir.

Nododd Adroddiad Pwyllgor Seneddol (2004) nifer o ddiffygion yn y prosiect gan gynnwys: yr amser a gymerwyd i sefydlu Canolfan Trafodion Gwledig (mewn llawer o achosion > 18 mis) oherwydd anawsterau yn sicrhau cefnogaeth leol; nifer fawr o rwystrau biwrocrataidd yn gysylltiedig â'r cynllun; proses gymeradwyo hir; y nifer gyfyngedig o wasanaethau a gynigiwyd, a'r pwysau mawr ar aelodau gwirfoddol o'r gymuned i sefydlu a datblygu'r broses. [Gweler: **http://www.aph.gov.au/Parliamentary_Business/Committees/Joint/Corporations_and_Financial_Services/Completed_inquiries/2002-04/banking/report/c10**]

O ran gwasanaethau ariannol y canolfannau nodwyd y gwendidau canlynol: *"…[the RTCs] do not always meet or suit the requirements of business customers and face security and privacy issues. For example, most RTCs do not facilitate business transactions including business cash deposits and withdrawals nor form part of the commercial world providing advice and access to finance so necessary for small businesses to develop".* Yn ogystal, nodwyd nad oedd y nifer fach o ganolfannau a sefydlwyd yn gwneud fawr ddim i drechu colli niferoedd mawr o ganolfannau bancio masnachol, gan adael busnesau bach yn wynebu problemau yn talu arian i mewn ac yn codi arian.

Hefyd nododd y Pwyllgor fod adroddiad wedi'i ryddhau gan Swyddfa Archwilio Genedlaethol Awstralia (2003) a nododd ganfyddiad allweddol: *"…the Department of Transport and Regional Services did not translate the Government's program objectives for the RTC program into 'operational objectives that would have helped to establish an appropriate performance management framework to monitor the efficiency and effectiveness of program delivery'. It found failings in the initial planning process, in particular 'the absence of any mechanism for feeding information gained from the evaluation of individual projects into an evaluation of the efficiency and effectiveness of the programs.'"*

Erbyn 2002-03, nodwyd bod cyfanswm o 164 o ganolfannau a 119 o safleoedd EPOS wedi'u cymeradwyo. Roedd cyfanswm o 80 o'r canolfannau a 101 o'r safleoedd EPOS a gymeradwywyd yn weithredol gan gyflenwi amrywiaeth o wasanaethau fel bancio, Centrelink, Medicare easyclaim, gwasanaethau busnes ac amrywiaeth o wasanaethau'r

llywodraeth a'r sector preifat. Daeth y canolfannau yn rhan o'r rhaglen Partneriaethau Gwledig yn 2003, a gyflawnwyd drwy'r Adran Seilwaith a Datblygu Rhanbarthol. Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wybodaeth gwerthuso ychwanegol er ei bod yn ymddangos bod rhai canolfannau yn gweithredu o hyd mewn rhai ardaloedd.

## Y Weinyddiaeth Cyflogaeth a Lles Newydd (NAV), Norwy

Menter llywodraeth ganolog oedd hon i gyflenwi gwasanaethau cymorth cyflogaeth a lles. Unodd diwygiad NAV y gweinyddiaethau ar gyfer yswiriant gwladol a chyflogaeth, ond parhaodd y weinyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol i fod yn gyfrifoldeb llywodraeth leol. Er mwyn cydlynu gwasanaethau cyflogaeth ac yswiriant gwladol a gwasanaethau cymdeithasol, sefydlodd diwygiad NAV siop un stop (swyddfa NAV), y bwriadwyd iddi fod yn wasanaeth rheng flaen ar y cyd ym mhob bwrdeistref. Trefnwyd swyddfa NAV fel partneriaeth rhwng y gweinyddiaethau cyflogaeth ac yswiriant a gyfunwyd (cyfrifoldeb llywodraeth ganolog) a'r weinyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol (cyfrifoldeb llywodraeth leol). Roedd yn rhaid i fwrdeistrefi gymryd rhan yn y partneriaethau, ac roedd yn rhaid cynnig cymorth cymdeithasol ariannol gan y bwrdeistrefi (budd-daliadau cymdeithasol) drwy'r siopau un stop, ynghyd ag amrywiaeth o wasanaethau cymdeithasol bwrdeistrefol eraill os oedd galw amdanynt yn lleol. Roedd y rhan fwyaf o fwrdeistrefi (90%) yn cynnwys tasgau bwrdeistrefol nad oeddent yn orfodol (e.e. roedd y rhan fwyaf o fwrdeistrefi yn cynnwys triniaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau a thai cymdeithasol yn y siopau un stop).

Nodwyd bod y model partneriaeth aml-lefel oedd yn rhedeg siopau un stop NAV yn gam arloesol yn sefydliadol yn system wleidyddol-weinyddol Norwy; yn cyfuno cyfrifoldeb gweinidogol ac arbenigedd o'r sector â hunanlywodraeth leol ac arbenigedd tiriogaethol.

## Canolfannau gwaith bwrdeistrefol, Denmarc

Gwnaeth llywodraeth Denmarc, fel Norwy, hefyd gyflwyno siopau un stop yn seiliedig ar y cysyniad o 'un fynedfa' i'r maes gwasanaethau cyflogaeth. Creodd diwygio strwythurol yn 2007 ddau fath o siop un stop i ddarparu gwasanaethau yn ymwneud â chyflogaeth ond ni weithiodd yn dda. Yn 2009 trosglwyddodd y llywodraeth gyfrifoldeb am y di-waith ag yswiriant a thalu budd-daliadau diweithdra i fwrdeistrefi. Byddai pob gwasanaeth cyflogaeth yn cael ei gynnig drwy ganolfannau gwaith (y 'siop un stop') a fyddai'n cael eu rhedeg gan fwrdeistrefi ond eu rheoleiddio gan lywodraeth ganolog. Mae'r strwythur o safbwynt y cwsmer yn eithaf syml, gyda'r canolfannau gwaith yn cael eu rhedeg gan y bwrdeistrefi yn gyfan gwbl, gyda lefel uchel o ymreolaeth, gan fod y rhain yn unedau datganoledig cymharol gryf.

### Cydleoli gwasanaethau meddygol a CAB, Gateshead

Mae amrywiaeth o astudiaethau yn dangos cysylltiad clir rhwng iechyd gwael a theimlo dan bwysau. Yn ôl yr hyn a brofir gan feddygon teulu ac ymddiriedolaethau iechyd meddwl mewn ardaloedd trefol, treulir swm sylweddol o amser wyneb yn wyneb ymarferwyr yn trafod heriau ac ansicrwydd personol a chymdeithasol sy'n arwain at salwch cleifion, a'r ffaith eu bod yn teimlo dan bwysau. Gall gwersi o waith trefol o'r fath gael eu trosglwyddo i ardaloedd gwledig, yn enwedig lle mae'n anodd dod i gysylltiad ag ymarferwyr iechyd, a bod hynny wedyn yn digwydd yn anaml.

Treialwyd enghraifft o gydleoli gwasanaethau cyngor iechyd a gofal cymdeithasol gan y GIG yn Gateshead a oedd yn cynnwys cymorth CAB mewn rhai meddygfeydd. Nododd ymchwil werthuso gan Ysgol Iechyd y Cyhoedd Prifysgol Northumbria fod pobl oedd yn mynd i weld eu meddyg teulu yn defnyddio cyngor ar les CAB. Roedd hyn yn rhannol am fod y feddygfa yn cael ei hystyried yn lle mwy cyfforddus/niwtral i drafod, a oedd yn lleihau'r ymdeimlad o stigma. Helpodd y cynllun staff CAB i ymgysylltu â chleientiaid yn fwy nag a welwyd yn swyddfeydd confensiynol CAB, a bu modd iddynt ddeall cyd-destunau unigol yn agosach. Fodd bynnag, dywed ymchwilwyr fod heriau mawr ynghlwm wrth droi data ar newidiadau wrth ddarparu/defnyddio gwasanaethau yn rhagfynegiadau neu'n dueddiadau o ran canlyniadau iechyd.

## Dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar leoedd

### Canolfannau cymdogaeth a chymunedol, De Cymru Newydd, Awstralia

Cafodd canolfannau cymdogaeth a chymunedol eu sefydlu mewn sawl rhan o Awstralia er mwyn ymdrin â phroblemau allgáu cymdeithasol, yn enwedig ymhlith cartrefi difreintiedig ac incwm isel.  Mae'r fenter yn seiliedig ar ymchwil a ddangosodd bwysigrwydd cefnogaeth y gymuned i raglenni er mwyn iddynt fod yn effeithiol ac yn llwyddiannus.  Un ffordd o gynyddu ymgysylltiad y gymuned oedd sefydlu canolfannau mewn cymdogaethau penodol, gyda chymorth y Gymdeithas Gwasanaethau Cymunedol Lleol.  Nid yw canolfannau cymdogaeth yn gysyniad newydd. Maent wedi bodoli yn Ne Cymru Newydd ar ryw ffurf ers dechrau'r 1960au, gan dyfu'n raddol mewn ymateb i newidiadau yn ymwybyddiaeth y gymuned i hunangymorth, materion yn ymwneud â thrigolion a hawliau lles.  Yn 1991, daeth y cyllid craidd ar gyfer canolfannau cymdogaeth yn rhan o Raglen Grantiau Gwasanaethau Cymunedol Gwasanaethau Cymunedol De Cymru Newydd, a ddarparodd arian i fwy na 300 o ganolfannau ledled y rhanbarth, ond yn fwy diweddar (yn 2010) rhoddwyd y gorau i'r rhaglen, gan gyflwyno cyllid Canolfan Gymunedol Adeiladwyr Cymunedol newydd yn ei lle. Yn ôl adroddiadau, ni fu modd i rai o'r canolfannau cymdogaeth mwy newydd gael gafael ar yr arian hwn. Hefyd, mae cyllid craidd wedi gostwng ac mewn rhai ardaloedd mae

canolfannau cymdogaeth a thai wedi cael eu hannog (gan ddechrau yn 2005) i gydleoli â'r canolfannau cymunedol newydd a sefydlwyd gyda chyllid y llywodraeth i gyflenwi gwasanaethau. Nid yw cydleoli bob amser wedi arwain at gyflenwi gwasanaethau'n well ac mae adroddiad diweddar yn awgrymu y dylid ystyried y cyd-destun cymunedol wrth wneud penderfyniadau ynghylch cydleoli.

Ymhlith canlyniadau allweddol canolfannau cymdogaeth mae'r canlynol:

- Mynediad uniongyrchol i amrywiaeth o wasanaethau (sy'n cynnwys rhaglenni rhianta a chymorth teuluol, gofal plant, datblygu ieuenctid, addysg oedolion a sgiliau bywyd, grwpiau cymorth ar gyfer cam-drin domestig a phroblemau caethiwed)
- Gweithredu fel cyfrwng i wasanaethau eraill
- Pwynt mynediad 'meddal' nad yw'n creu stigma i'r system wasanaeth (yn goresgyn amharodrwydd i ymgysylltu â gwasanaethau; yn galluogi ymgysylltu â grwpiau 'anodd eu cyrraedd', ynghyd â chamau ymyrryd ac atal cynnar)
- Buddiannau anuniongyrchol fel gwella rhwydweithiau cymdeithasol ac adeiladu cyfalaf cymdeithasol

Mae a wnelo manteision eraill â pha mor hawdd y gall y canolfannau addasu i newidiadau yn y sefyllfa leol. Gall seilwaith canolfannau cymdogaeth gael ei weithredu, ehangu, addasu, neu leihau'n gyflym mewn ymateb i anghenion y gymuned ac mae'r Canolfannau yn darparu gwasanaethau costeffeithiol drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr (31% o gyflenwad gwasanaethau) a gweithwyr y mae eu tâl yn sylweddol is na chyfraddau cymaradwy'r llywodraeth; hefyd gall canolfannau godi arian o amrywiaeth o ffynonellau.

Datgelodd arolwg o 534 o ganolfannau ledled Awstralia a gynhaliwyd gan Gymdeithas Canolfannau Cymdogaeth a Thai Awstralia fod cryn amrywiaeth o ran rôl, rhaglenni, ffynonellau a lefelau cyllid, a ffocws mewn taleithiau gwahanol (Rooney, 2011). Roedd y rhan fwyaf yn canolbwyntio ar gyllid craidd y llywodraeth er eu bod yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau codi arian ychwanegol ac roeddent i gyd yn dibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr i gyflenwi gwasanaethau. Roedd gan y canolfannau a arolygwyd gan y Gymdeithas y nodweddion canlynol:

- darparu seilwaith gan gynnwys man cyfarfod, man gweithgareddau, man i wasanaethau gwadd ac fel man a rennir â gwasanaethau eraill
- mae canolfannau yn cynrychioli amrywiaeth o fathau o gyfleusterau ac roedd nifer o sefydliadau yn gweithredu mwy nag un cyfleuster
- roedd rhai canolfannau wedi'u codi'n bwrpasol ac roedd llawer yn adeiladau wedi'u hadnewyddu (tai maestrefol yn bennaf)

- roedd 78% o adeiladau yn eiddo i'r llywodraeth daleithiol neu lywodraeth leol a dim ond 6% oedd yn eiddo i'r sefydliad ei hun.
- mae canolfannau mewn rhai rhannau o Awstralia yn canolbwyntio'n rhannol ar Addysg Oedolion a Chymunedol (fel Victoria) tra bod eraill ddim
- caiff canolfannau eu rhedeg gan y gymuned i'r gymuned ac maent yn darparu sylfaen i gyfranogiad dinesig; roedd y rhan fwyaf yn gymdeithasau corfforedig â phwyllgorau neu fyrddau gwirfoddol
- ar gyfartaledd roedd gan gymdeithas 86 o aelodau (ffurfiol) ac roedd pob pwyllgor yn treulio tua 34 awr y mis ar fusnes pwyllgor
- ar gyfartaledd roedd 2.8 gwirfoddolwr am bob gweithiwr â thâl ac roedd 52% o ganolfannau yn cyflogi staff rhan-amser yn unig
- roedd gan 58% o ganolfannau incwm blynyddol o dan $250,000; roedd gan 20% incwm gros o $251,000-$500,000 ac roedd gan 22% incwm dros $500,000 y flwyddyn

Gwnaeth astudiaeth effaith o 107 o ganolfannau cymdogaeth yn Ne Awstralia grynhoi rôl y canolfannau fel a ganlyn:

> "Community centres are not-for-profit community organisations operating in local communities using prevention and early-intervention strategies to assist those who are disadvantaged and previously disengaged people through community development, health and well-being, social inclusion and life skills programs."

> "The economic contribution of the network of community centres is significant. These include…enabling people to engage in further learning and work through volunteering, foundation skills courses and breaking down barriers to participation such as through literacy and numeracy and the provision of childcare that enables engagement and participation."

Nododd yr astudiaeth yr effeithiau canlynol:

- dros 2 filiwn o ymweliadau â chanolfannau bob blwyddyn (y nifer a ymwelodd â'r 107 o ganolfannau bob wythnos = 42,800)
- mae cyfraniad gwirfoddolwyr yn werth rhwng $32 a $43 miliwn (yn seiliedig ar: 4,500 – 5,600 o wirfoddolwyr yn cyfrannu 28,462 awr yr wythnos; gwirfoddolwyr cyfwerth ag amser llawn fesul canolfan = 7.6 yn creu cymhareb o 3.2 gwirfoddolwr fesul gweithiwr â thâl ac 1.2 awr gwirfoddoli fesul awr staff â thâl).
- mae 66,742 awr o wasanaethau crèche bob blwyddyn, naill ai am ddim neu am rodd fach iawn, yn werth (ffigur ceidwadol) $1.3 miliwn.

- mae rhaglenni llythrennedd a rhifedd yn costio $4.73 yr awr i'w cynnal ac yn cynhyrchu buddiannau sydd rhwng $11.14 a $19.30 yr awr yn ôl yr amcangyfrifon (h.y. cymhareb ddychwelyd o 2.4 i 4.1)

### Partneriaethau Cape York: Rheoli Incwm Teuluoedd, Awstralia

Mae'r cynllun yn un o blith nifer o fentrau cysylltiedig a gynhelir er mwyn diwallu anghenion hanfodol pobl Frodorol Cape York ac fe'i hystyrir yn ffactor allweddol er mwyn cyflwyno diwygiadau lles yn effeithiol.

Mae'r cynllun yn targedu cymunedau brodorol ynysig ar Cape York nad oes ganddynt fynediad i gyfleusterau bancio prif ffrwd. Sefydlwyd y fenter hon i oresgyn y rhwystrau i gael mynediad i wasanaethau ariannol a helpu teuluoedd Brodorol i reoli eu hincwm yn well. Ystyrir amcanion y fenter fel a ganlyn:

- Datblygu gallu teuluoedd ac unigolion i reoli incwm;
- Cynnwys grwpiau teuluol mewn prosesau rheoli incwm, helpu cyfranogwyr i nodi a chyflawni cyfrifoldebau i'w gilydd ac i'w cymunedau;
- Datblygu trefniadau prynu fel grŵp er mwyn dod o hyd i nwyddau cartref fforddiadwy o ansawdd, ynghyd â pheiriannau a chyfarpar busnesau bach, a darparu mynediad iddynt;

Cyflawnir yr amcanion hyn drwy weithio'n agos gydag unigolion a theuluoedd er mwyn:

- datblygu cyllideb cartref, sicrhau bod biliau yn cael eu talu ac y gofelir am blant;
- sicrhau bod pob unigolyn yn cyfrannu at filiau'r cartref, cyfrifon prynu bwyd, a chynilion;
- darparu addysg a mynediad i gyfleusterau bancio ar-lein a bancio dros y ffôn.

Mae'r cynllun yn defnyddio llawer o adnoddau, ynghyd â 'hwyluswyr' teulu a gweithwyr adnoddau sy'n gweithio ym mhob cymuned er mwyn targedu teuluoedd brodorol yn bennaf sy'n dewis cymryd rhan yn y rhaglen o'u gwirfodd.  Mae gweithwyr adnoddau yn helpu i dalu biliau ac yn rhoi cyngor ar beth i'w brynu, yn negodi cytundebau i ad-dalu dyledion, yn rhoi'r gorau i systemau 'book up' (credyd lleol a roddir gan siopau – yn aml yr unig gredyd sydd ar gael mewn cymuned) ac yn darparu ar gyfer siopa heb arian parod drwy system talebau (gan ddefnyddio cynilion yn hytrach na chredyd).

Mae'r gweithiwr adnoddau a'r teulu yn cydweithio i nodi incwm y cartref, unrhyw ddyledion, a threuliau hanfodol y cartref, gan greu cyfrif cartref ac 'is-gyfrifon' i dalu am dreuliau allweddol. Mae'r teulu hefyd yn nodi anghenion a nodau eraill, fel y nwyddau a'r gwasanaethau a ddymunir a dyheadau tymor hwy, a chyda help y gweithwyr adnoddau bydd yn creu cyllideb i reoli incwm, gwariant a chynilion y cartref.  Pan fydd hyn wedi'i wneud bydd y gweithiwr

adnoddau yn cydweithio â gwasanaethau lles (yn electronig) neu'r cyflogwr i drefnu didyniadau uniongyrchol o daliadau cymhorthdal incwm neu gyflogau i gyfrif y fenter. Yna caiff arian ei roi yn is-gyfrifon cytûn yr unigolyn, fel rhent, trydan, ffôn, bwyd, addysg, car, ad-daliadau dyledion neu gynilion. Caiff biliau'r unigolyn eu talu o'i gyfrifon, a bydd y gweithiwr adnoddau hefyd yn helpu i ymchwilio i'r bargeinion gorau ar gyfer prynu'r hyn a ddymunir, gan gynnwys benthyciadau ceir.

Mae'r cynllun ar waith mewn wyth cymuned a dywedir iddo wella safonau byw dros 700 o unigolion. Mae data'r fenter yn awgrymu bod y prosiect wedi arwain at brynu llawer iawn o nwyddau'r cartref, llai o achosion o ddatgysylltu ffonau a thrydan, biliau is, mwy o wariant ar fwyd, a llai o ddyledion mewn siopau lleol. Hefyd, awgrymwyd bod y rhaglen yn cyfrannu at gynyddu'r cymhelliant i weithio a chael hyfforddiant, ynghyd â gostwng lefelau straen a gwrthdaro o fewn y teulu, a gwell presenoldeb mewn ysgolion, er nad oes unrhyw dystiolaeth werthuso i'w chael i ategu'r datganiadau hynny.

Ym mis Mawrth 2013, nododd gwerthusiad o'r cynllun gan Lywodraeth Awstralia ganlyniadau cymysg yn gysylltiedig â rheoli incwm, lle gwnaed yr arsylwadau canlynol:

- Roedd peth tystiolaeth bod rheoli incwm yn helpu i leihau ymddygiad sy'n arwain at roi gwybod am bobl i'r corff sy'n gyfrifol am ddiwygiadau lles.
- Nododd 78% o'r bobl a arolygwyd lle rheolwyd eu hincwm fod y cynllun wedi gwneud eu bywydau yn well.
- Roedd peth pryder am agweddau rheoli incwm ar y cynllun, a chafwyd cwynion rheolaidd am y ffaith na ellid ei ddefnyddio mewn rhai siopau, ynghyd â natur nawddoglyd yr ymyriad.
- Bu rhywfaint o welliant mewn meysydd fel mynychu'r ysgol a lleihau troseddau.
- Roedd diffyg cynnydd mewn rhai elfennau o'r cynllun, fel tai a chyfleoedd economaidd.

Hefyd, nododd y gwerthusiad ei bod yn anodd dod i gasgliadau pendant am effeithiolrwydd y cynllun am ddau reswm: yn gyntaf, dim ond pum mlynedd ar ôl cyflwyno'r cynllun y cynhaliwyd y gwerthusiad a gall y canlyniadau disgwyliedig gymryd llawer mwy i ddod i'r amlwg; yn ail, roedd llawer o gymunedau Brodorol eraill yn Queensland wedi gwneud gwelliannau, ac nid oedd unrhyw sail dystiolaeth wrthffeithiol gref i wneud cymariaethau.

### Ystafell Gymunedol Midgley, Swydd Efrog, Lloegr

Ar raddfa lawer llai, caiff ystafell gymunedol Midgley ei rhedeg gan wirfoddolwyr heb unrhyw gyllid allanol craidd. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau lleol gan fforwm cymunedol, sy'n cynnwys siop ac ystafell gymunedol. Mae'r siop yn darparu gwasanaethau i gymuned fach anghysbell (ychydig dros 1,000 o bobl) a defnyddir tîm o 40 o

wirfoddolwyr i redeg y siop a'r ystafell gymunedol. Mae'r siop ar agor 48 awr yr wythnos (dros 6 diwrnod) a chaiff 80 o gwsmeriaid y dydd ar gyfartaledd. Yn ôl arweinwyr cymunedol mae'r gweithgareddau wedi arwain at greu 'cymuned gryfach' lle ceir llai o ynyswch, a rhwydweithiau cymdeithasol cryfach.

## 'Mynd â'r gwasanaeth i'r defnyddiwr'

### Cynllun Asiant Pentref, Lloegr

Prif nod y cynllun yw helpu pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig i gael mynediad i wasanaethau, ynghyd â helpu i lywio'r broses o'u cyflenwi drwy fwydo gwybodaeth o'r bôn i'r brig. Mae cynlluniau a ddatblygwyd gan brosiect 'LinkAge' a gaiff eu rhedeg gan yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi bod ar waith ers 2006 (er bod y cynllun wedi gorffen mewn rhai ardaloedd). Mae Asiantiaid Pentref yn gweithio gyda phob rhan o'r gymuned gan ddelio ag ystod eang o faterion, er eu bod yn dueddol o ganolbwyntio ar yr henoed a phroblemau gofal cymdeithasol yn bennaf; yn arbennig, helpu pobl i aros yn eu cartrefi drwy sicrhau bod ganddynt fynediad i wasanaethau cymorth, a thrwy leihau ynyswch ac allgáu. Gan eu bod yn gweithredu yn y cymunedau eu hunain, gall Asiantiaid Pentref lywio'r broses o gyflenwi gwasanaethau drwy fwydo gwybodaeth yn ôl am fylchau mewn gwasanaethau (e.e. trafnidiaeth), ansawdd gwasanaethau, a faint o bobl sydd mewn angen. Maent hefyd yn mynd ati i gymell a chynorthwyo cymunedau i ymateb i anghenion lleol drwy gydweithio i fynd i'r afael â materion.

Yn Swydd Gaerloyw canolbwyntiwyd ar bobl hŷn (>50 oed). Cafodd asiantiaid eu hyfforddi ac fe'u talwyd i weithio 10 awr yr wythnos mewn 'clystyrau' o gymunedau, a oedd yn cynnwys rhwng 330 a 1,125 o bobl dros 50 oed. Datgelodd gwerthusiad o Gynllun Swydd Gaerloyw yn 2008 fod 30 o asiantiaid yn cwmpasu 162 o blwyfi. Mae asiantiaid unigol yn gweithio mewn clystyrau o gymunedau sydd â mynediad cyfyngedig i wasanaethau yn lleol, os o gwbl. Daeth y gwerthusiad i'r casgliad bod y cynllun yn darparu ffordd rad o helpu pobl i gael mynediad i wasanaethau, gan ddefnyddio pobl leol ran-amser a hyfforddedig sy'n byw yn yr ardal ac y mae'r gymuned leol yn ymddiried ynddynt. Ymhlith y cyflawniadau penodol a nodwyd yn yr adroddiad gwerthuso roedd:

- Cyflawni 31,244 o gysylltiadau, 151 o atgyfeiriadau at asiantaethau gwella cartrefi, a 309 o atgyfeiriadau at yr Adran Gwaith a Phensiynau yn ystod 2007-08.
- Helpodd Asiantiaid Pentref yn Swydd Gaerloyw bobl leol i gynyddu eu hawliadau budd-daliadau £6,005 yr wythnos (cyfanswm o £312,780 mewn budd-daliadau ychwanegol yn y sir y flwyddyn – sydd bron yn cyfateb i gost flynyddol rhedeg y gwasanaeth Asiantiaid Pentref)

- Roedd pobl hŷn yn fwy tebygol o gysylltu â sefydliadau statudol yn sgil dod i gysylltiad ag Asiantiaid
- Mae gan bobl hŷn well ymwybyddiaeth o fesurau ataliol
- Mae pobl hŷn yn teimlo'n fwy diogel, yn teimlo y gofelir amdanynt yn fwy ac maent yn byw bywyd o ansawdd gwell
- Caiff rhwydweithiau cymdeithasol eu cefnogi a'u hyrwyddo
- Gall mentrau a gwybodaeth dargedu unigolion yn uniongyrchol
- Drwy roi pobl hŷn mewn cysylltiad â gwahanol asiantaethau statudol a gwirfoddol mae pobl wedi derbyn mwy o wasanaeth, sy'n eu helpu i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

O ganlyniad i effeithiolrwydd y cynllun, mae Asiantiaid Pentref yn Swydd Gaerloyw bellach yn un o wasanaethau prif ffrwd y cyngor, ac mae ganddynt gyllideb benodol a ddaw o gyllidebau Gofal Cymdeithasol a PCT ar y cyd. Mae cynlluniau mewn rhannau eraill o'r wlad hefyd wedi bod yn llwyddiannus (e.e. Cumbria).

### Cyfuno cyllidebau iechyd personol mewn rhannau gwledig o'r Alban

Yn fwyfwy, mae'r GIG yn annog pobl i gymryd rheolaeth o'r math o ofal maent am ei gael, drwy'r defnydd o gyllidebau iechyd personol. Drwy ddyrannu cyllideb i unigolion, gall cleifion benderfynu ar y math o ofal meddygol a gânt, pa mor aml y'i darperir a ble, yn hytrach na chael eu meddygfa leol neu ysbyty yn dweud wrthynt. Mae rhai ardaloedd gwledig yn ei chael hi'n anodd recriwtio neu gadw meddygon teulu sydd felly'n bygwth dichonoldeb gweithredol ac ariannol rhai meddygfeydd. Mewn achosion eraill, mae ynyswch gwledig yn golygu bod cymunedau yn agored i niwed yn dilyn digwyddiadau annisgwyl: yn 2014, penderfynodd trigolion Braemar, Swydd Aberdeen, gyfuno eu lwfansau gofal personol er mwyn datblygu cynllun ymarferwyr clinigol lleol ar ôl i lifogydd eu hynysu'n llwyr. Cyflwynwyd cynllun tebyg iawn ym mhentref Carradale ar arfordir dwyreiniol penrhyn Kintyre, lle cyfunodd trigolion lwfansau er mwyn osgoi'r angen i deithio i Cambletown am ofal meddygol. Mae hyn yn enghraifft o gymunedau gwledig yn mynd ati i ganfod ffyrdd o ddiwallu anghenion gofal lleol a'u rhoi ar waith, yn hytrach na bod yn fenter o'r brig i'r bôn.

## Dulliau penodol o gyflenwi gwasanaethau: gofal plant

### Rhaglen Gofal Plant, Cronfa Benthyciadau Cymunedol Vermont, UDA

Mae'r gronfa hon yn gynllun benthyciwr amgen cymunedol (preifat, nid er elw) sy'n darparu cymorth ariannol i ystod eang o weithgareddau datblygu gwledig mewn ardaloedd gwledig.

Ers 2000, mae hefyd wedi cynnwys Rhaglen Gofal Plant, gan weithio tuag at liniaru prinder gofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel yn y dalaith (h.y. galluogi gwell mynediad i ofal plant fforddiadwy) drwy ariannu'r gwaith o wella cyfleusterau cartrefi a chanolfannau. Mae'r rhaglen yn cynnig benthyciadau i ddarparwyr gofal plant nad ydynt yn gymwys i gael benthyciad gan fenthyciwr traddodiadol, ac mae'n cyfuno benthyciadau â gwasanaethau ymgynghori ariannol a datblygu busnes er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd busnes yn llwyddo.

Nododd datganiad effaith yn 2008 y canlynol:

“The Vermont Community Loan Fund (VCLF) is a Community Development Financial Institution that provides loans, technical assistance and support for the development of affordable housing, community facilities, local businesses, childcare programs and other projects that benefit low- and moderate-income Vermonters. VCLF was formed in 1987 to address the lack of affordable housing in central Vermont. In 1991, VCLF began lending to non-profits and in 1995, it began to lend to small businesses. In 2000, VCLF launched its childcare lending program, an agritourism loan fund and a down payment program for mobile home ownership. In 2003, VCLF began providing direct technical assistance services to childcare providers.”

*“Since its founding in 1987, VCLF has provided over $45 million through 539 loans, creating or retaining 1,059 jobs, 2,294 affordable housing units, and 1,379 childcare slots in Vermont.*

“Child Care Lending: The need for childcare in Vermont currently outpaces its availability by nearly 50 percent. Now in its seventh year of childcare lending, VCLF recognizes the unique challenges in financing the start-up or improvement of childcare programs. VCLF provides financing and technical assistance to both home- and center-based childcare providers. Loans are used by providers to achieve professional standards, meet state regulatory and ADA-accessibility requirements, increase staffing or capacity for service, and purchase necessary equipment.”

[Ffynhonnell: Trillium Asset Management Corporation, 2008)]

Nododd gwerthusiad a gynhaliwyd yn 2012 fod y gronfa, ers 2000, wedi gwneud benthyciadau i 99 o ddarparwyr gofal plant, wedi benthyca $7 miliwn ac wedi trosoli $3 miliwn ychwanegol er mwyn gwella mynediad i ofal plant o ansawdd, gan ganolbwyntio ar deuluoedd a chymunedau incwm isel. Nododd yr adroddiad fod y benthyciadau wedi ei gwneud yn bosibl creu neu gynnal gofal o ansawdd i 3,400 o blant a'u teuluoedd, ac wedi darparu gofal fforddiadwy i deuluoedd incwm isel. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yr arian hefyd wedi cynyddu'r nifer net o swyddi yn y canolfannau newydd a gynhelir 35% (85 o

swyddi newydd a chynnydd net o 58 o swyddi). Ymhlith y cyflawniadau a nodwyd mae'r canlynol:

- Gwasanaethu mwy o deuluoedd incwm isel: mae 44.8% o holl gofrestriadau Rhaglen Gofal Plant VCLF gan deuluoedd incwm isel o gymharu â llai na 30% ledled y dalaith
- Mae VCLF yn creu mwy o fynediad i ofal babanod a phlant bach o ansawdd: mae 85.6% o'r babanod sydd ar raglenni a gaiff eu rhedeg gan fenthycwyr VCLF wedi'u cofrestru mewn gofal plant o ansawdd uchel, o gymharu â 39% o'r babanod a gofrestrwyd mewn gofal o ansawdd uchel ledled y dalaith.
- Cyflogau uwch i'r rhai sy'n gweithio mewn busnesau a weithredir gan bobl a gafodd fenthyciadau drwy'r gronfa ($12.28 yr awr o gymharu â $10.63 yr awr i weithiwr gofal plant yn 2011 ar gyfartaledd yn y dalaith)
- Cafodd cyfran lawer uwch o fusnesau gofal plant a weithredwyd gan bobl a gafodd fenthyciadau drwy'r gronfa eu cofrestru â rhaglen STARS (system sgorio ansawdd) o gymharu â busnesau gofal plant eraill ledled y dalaith

Nododd datganiad effaith ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Mehefin 2013 yr effeithiau canlynol ar ofal plant:

- Benthyciwyd: $475,100
- Lleoedd gofal plant a gafodd eu creu neu eu cynnal: 201
- Nifer y swyddi a gafodd eu creu neu eu cynnal: 37
- Doleri prosiect ychwanegol a drosolwyd: $239,875
- Cyfanswm benthyciadau 1 Gorffennaf 2012 - 30 Mehefin 2013: $5,413,258
- O dan brosiect SUCCESS, sy'n darparu hyfforddiant i ddarparwyr gofal plant, fesul grŵp neu un i un, gan ganolbwyntio ar y sgiliau a'r strategaethau busnes sy'n hanfodol i redeg canolfan gofal plant:
    - Darparwyd 1,875 awr o Gymorth Technegol
    - Rhoddwyd Cymorth Technegol un i un i 127 o ddarparwyr gofal plant sy'n gwasanaethu 960 o blant a'u teuluoedd
    - Darparwyd 14 o sesiynau hyfforddiant grŵp, gan wasanaethu 130 o ddarparwyr

[Ffynhonnell: Vermont Community Loan Fund Social Impact Report 2013 **http://legislature.vermont.gov/assets/Documents/2014/**]

### Menter Busnes Gofal Plant, Vermont, UDA

Mae'r prosiect hwn yn gynllun a ariennir gan y dalaith sy'n darparu hyfforddiant busnes a chymorth technegol i fusnesau gofal plant newydd a rhai sy'n bodoli eisoes er mwyn eu gwneud yn fwy cynaliadwy a chadarn yn ariannol, a cheisio cynyddu argaeledd gofal plant o ansawdd. Cyflawnir y prosiect ledled y dalaith (ardaloedd trefol a gwledig) drwy Raglen Datblygu Microfusnesau Asiantaethau Gweithredu Cymunedol Vermont. Ategir gweithgareddau'r prosiect gan grant sy'n cyflawni'r canlynol: Cwrs Gofal Plant Kauffmann; gwasanaethau cymorth technegol a chyngor busnes; gweithdai ar bynciau penodol; ac, atgyfeiriadau at adnoddau fel gwasanaethau cymdeithasol a phecynnau benthyciadau. Nododd gwerthusiad a gynhaliwyd yn 2006 y canlynol:

- Ar y cyfan, cwblhaodd 64% o'r holl gleientiaid gwrs Kauffmann, gyda 79% o gyfranogwyr incwm isel yn ei gwblhau.
- Roedd myfyrwyr yn teimlo'n fwy hyderus o ran eu sgiliau ac fel perchenogion busnes. Gwnaeth cleientiaid a ddechreuodd ddilyn y rhaglen ar y cam cychwynnol ddysgu am sut i ddechrau busnes gofal plant, rheoliadau'r dalaith, ac ymarferoldeb rhedeg y math hwn o fusnes. Gwnaeth myfyrwyr a ddilynodd y rhaglen oedd eisoes mewn busnes wella eu sgiliau rheoli busnes.
- Derbyniodd cyfanswm o 329 o gleientiaid wasanaethau gan y Fenter Busnes Gofal Plant, gyda 43% (n=139) ohonynt o dan y lefel tlodi (gan gynnwys y sawl a dderbyniodd gymorth dros dro, gweithwyr wedi'u dadleoli, a phobl ddiwaith)
- Roedd refeniw blynyddol gros (hunangofnodedig) busnesau gofal plant pob cleient yn $22,900 y flwyddyn ar gyfartaledd (n=92).

### Rhwydwaith Gofal Plant Gwledig, De-orllewin Lloegr

Grŵp o sefydliadau gofal plant cymunedol sy'n cydweithio gan gymysgu cymorth ar-lein a chymorth ymarferol. Bu'n gweithredu rhwng 2007 a 2013 yn seiliedig ar gymorth ariannol y Cynllun Datblygu Gwledig. Sefydlwyd y Rhwydwaith Gofal Plant Gwledig i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth i grwpiau chwarae a oedd yn aelodau. Mae’r gwasanaethau yn cynnwys:

- System Gwybodaeth Reoli ar-lein
- "Gweithiwr Gofal Plant wrth gefn" a rennir
- Gwasanaeth cyflogres a rennir, a help gyda chyfrifon a rheolaeth ariannol
- Gwasanaeth cynnal a chadw a rennir, a phryniadau grŵp

## Cynllun Ymatebwyr Cyntaf cymunedol yn Ucheldiroedd yr Alban

Roedd y fenter hon yn rhan o 'Remote Services Futures' (RSF) yn Ucheldiroedd yr Alban. Yn 2010, roedd prosiect RSF yn cynnwys partneriaeth rhwng y GIG yn yr Ucheldiroedd, Sefydliad John Hutton a phedair cymuned Ucheldir ac Ynys. Rhoddwyd manylion costau cyflenwi gwasanaethau iechyd i bobl leol, a wnaeth wedyn – drwy ymgynghoriad cymunedol a reolwyd – flaenoriaethu sut y gallai'r arian hwnnw gael ei atgyfeirio tuag at flaenoriaethau iechyd lleol a bennwyd gan bobl leol. Mewn un gymuned, roedd yr amser hir roedd yn ei gymryd i ambiwlans gyrraedd achosion brys yn bryder mawr. O ganlyniad, cafodd grŵp o 10 gwirfoddolwr lleol eu hyfforddi'n 'ymatebwyr cyntaf', sef pobl wrth law â sgiliau cymorth cyntaf lefel uwch. Gallai'r bobl hyn wedyn ymateb mewn argyfwng tra bod ambiwlans yn cael ei alw. Ni chafodd y cynllun ei werthuso'n llawn dros amser ond mae adborth anecdotaidd gan Sefydliad John Hutton wedi nodi bod y rhwydwaith o ymatebwyr cyntaf wedi lleihau i bedwar unigolyn erbyn 2014. Cafodd y lleihad mewn niferoedd ei gysylltu'n gyntaf â diffyg hyfforddiant dilynol, a oedd yn gwneud i'r ymatebwyr cyntaf deimlo bod ganddynt ormod o gyfrifoldeb heb hyfforddiant gloywi parhaus a rheolaidd; ac yn ail, am fod Ymddiriedolaeth leol y GIG fel petai'n trin yr ymatebwyr cyntaf fel estyniad rheolaidd i'r gwasanaeth ambiwlans.

## Gwe Gymunedol Leol, y Ffindir

Darparu gwasanaethau ar-lein (cynadledda, gohebu drwy e-bost a chyfathrebu ar-lein). Roedd y prosiect Gwe Gymunedol Leol yn brosiect peilot oedd yn anelu at ddarparu gwasanaeth i'r ardal leol a fyddai'n annog sefydlu rhwydwaith cymunedol yn seiliedig ar gynadledda cyfrifiadurol, gohebu drwy e-bost a chyfathrebu ar-lein. Roedd gan y prosiect amcanion cymdeithasol penodol i atal allgáu cymdeithasol, cefnogi arloesedd cymdeithasol a gwella gwasanaethau ac amodau byw yn yr ardal beilot.

## Manylion yr Awduron

Mae **John Powell** yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned, Prifysgol Swydd Gaerloyw.

Mae **Dan Keech** yn Gymrawd Ymchwil yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned, Prifysgol Swydd Gaerloyw.

Mae **Matt Reed** yn Uwch Gymrawd Ymchwil yn Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a'r Gymuned, Prifysgol Swydd Gaerloyw

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:
**Emyr Williams**
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru
Ffôn: 029 2087 5345
E-bost: **info@wcpp.org.uk**

OGL Trwyddedwyd yr adroddiad hwn o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth

Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru